# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 544 · **Gorffennaf 2023** · 50c


## Manuela ar restr fer Dysgwr y Flwyddyn



Mae Manuela Niemetscheck o Fethesda wedi cyrraedd rhestr fer ar gyfer Dysgwr y Flwyddyn 2023.

**Pum iaith**

Yn wreiddiol o Ganada, mae Manuela Niemetscheck yn byw ym Methesda gyda'i theulu ac yn gweithio fel Seicotherapydd Celf yn Ysbyty Gwynedd.

Mae Manuela'n siarad pum iaith a dysgodd Gymraeg drwy Wlpan a mynychu Nant Gwrtheyrn.

Cafodd ei hysbrydoli i ddysgu ein hiaith nid yn unig oherwydd ei theulu a'i chymuned, ond hefyd gan ei bod yn credu bod defnyddio Cymraeg mewn gwasanaethau iechyd meddwl yn eithriadol bwysig, ac mae ei chyfraniad i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn benodol yn Uned Hergest yn enfawr.

**Bethesda**

Mae Manuela'n byw ei bywyd yn Gymraeg ac mae'n angerddol dros ein hiaith."Mae cael fy nghynnwys yn rownd derfynol Dysgwr y Flwyddyn 2023 yr Eisteddfod Genedlaethol yn fraint enfawr," meddai."Ers symud i Gymru a byw ym Methesda dwi wedi cael cymaint o gefnogaeth fel dysgwraig.

"Mae'r Gymraeg yn rhan bwysig o'r hyn sy'n gwneud y dref hon mor arbennig ac mae byw yma wedi fy helpu i ddatblygu fy sgiliau a theimlo'n rhan o'r gymuned."

**Dathlu'r deugain**

Eleni, mae cystadleuaeth yn 40 oed, ac fe'i trefnir ar y cyd gan yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Cafodd 30 o unigolion eu cyfweld eleni – y nifer uchaf erioed – gydag unigolion o Gymru a thu hwnt wedi'u henwebu. Mae Manuela yn un o bedwar ar y rhestr fer gydag Alison Cairns o Lannerchymedd, Roland Davies o Lanidloes, a Tom Trevarthen o Aberystwyth.

Beirniaid y rownd gynderfynol oedd Liz Saville Roberts, Geraint Wilson Price a Hannah Thomas. Bydd Tudur Owen yn cymryd lle Hannah ar y panel ar gyfer y rownd derfynol yn ystod yr Eisteddfod ym mis Awst.

Roedd y beirniaid yn gwbl gytûn fod y safon eleni'n uchel iawn unwaith eto, ac y byddai wedi bod yn hawdd iawn i ddewis naw i fynd yn eu blaenau i'r rownd derfynol.

Bydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi ar lwyfan y Pafiliwn Mawr, ddydd Mercher 9 Awst, a bydd yn derbyn Tlws Dysgwr y Flwyddyn a £300, yn rhoddedig gan Gyngor Tref Pwllheli. Bydd y tri arall yn y rownd derfynol yn derbyn £100 yr un, gyda'r wobr yma hefyd yn rhoddedig gan Gyngor Tref Pwllheli.

Llongyfarchiadau mawr Manuela, a phob lwc ym mis Awst!

**Ogwen360**


**Yn y rhifyn yma**

Trip i lan y môr - Ysgol Penybryn



8

Diwrnod lliwgar - Ysgol Bodfeurig



28

# Llais Ogwan

**Rhif 544**
Gorffennaf 2023

**Panel Golygyddol**

**Ieuan Wyn**
(Ffôn 600297)
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
(Ffôn 07815 093955)
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
(Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
(Ffôn 07402 373444)
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
(Ffôn 601167)
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
(Ffôn 07713 865452)
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
(Ffôn 07588 636259)
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
(Ffôn 07867 536102)
carwynian@hotmail.com

**Rhys Llwyd**
(Ffôn 01248 601606) rmll42@live.co.uk

**Catrin Wager**
(Ffôn 07366 418318)
catrinwager@yahoo.co.uk

**Swyddogion**

**CADEIRYDD**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT (Ffôn 602440)
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA (Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH (Ffôn 601415)
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Paul Rowlinson, Crud yr Awel,
Lôn Newydd, Coetmor,
Bethesda LL57 3DT
(Ffôn 01248 605365 / 07949 034967)
PaulJRowlinson@outlook.com

**Y Llais drwy'r post:**

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN (Ffôn 600184)
post@llaisogwan.com

## Pris Llais Ogwan yn codi i 70c

Ers Ionawr 2010 mae pris Llais Ogwan wedi aros yn 50c. Oherwydd costau cynyddol, yn cynnwys argraffu mewn lliw llawn, mae'n rhaid codi'r pris i 70c y rhifyn o fis Medi 2023 ymlaen. Gobeithio eich bod chi, ein darllenwyr ffyddlon, yn teimlo bod hyn yn godiad rhesymol, a bod y Llais yn dal yn fargen!

## Golygydd y Mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan **Rhys Llwyd.**

Y golygydd ym mis **Medi** fydd **Owain Evans,** 4 Rhes Mostyn, Bethesda, Gwynedd, LL57 3AB. 07588 636259.
E-bost: owain.evans1@gmail.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 26 Awst** os gwelwch yn dda.
Casglu a dosbarthu
**Nos Iau, 14 Medi**
yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â swyddfa Cymdeithas Deillion Gogledd Cymru, Bangor (01248 353604).

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
**Gareth Llwyd** – 601415
**Neville Hughes** – 600853

## Archebu trwy'r post

**Gwledydd Prydain** – £22
**Ewrop** – £30
**Gweddill y Byd** – £40
Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com
01248 600184

**Oes gennych chi ddiddordeb i hysbysebu yn Llais Ogwan?**

Cysylltwch â **Neville Hughes**
(Ffôn 600853)
nev_hughes@btinternet.com

## Dyddiadur y Dyffryn

**Gorffennaf**

25 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.

**Awst**

17, 18, 19. Arddangosfa Arlunio gan Grwp Arlunio Glasinfryn. Canolfan Glasinfryn 11yb-3.30yp, Mynediad am ddim

**Medi**

09 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
12 Gyrfa Chwist. Cefnfaes am 7.00.
14 Cymdeithas Jerusalem. Cyfarfod agoriadol y Tymor, Festri am 7.00.
14 Gwasanaeth Coffa. Eglwys Crist Glanogwen.
14 Noson gasglu a dosbarthu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
16 Bore Coffi Plaid Cymru. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
18 Clwb Coffi Talybont. Festri Bethlehem. 10.30 – 12.00.
23 Bore Coffi Clwb Gorffwysfan. Festri Jerusalem. 10.00 – 12.00.
30 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

## CLWB CYFEILLION

**Gwobrau Mehefin**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (92) | Menai Jones, Tregarth. |
| £20.00 | (75) | Annes Glynn, Rhiwlas. |
| £10.00 | (42) | Catrin Wager, Bethesda. |
| £5.00 | (162) | Linda Brown, Gerlan. |

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £5.00 | Paul Bernett, Marlow. |
| £20.00 | Emyr Roberts, Ffordd Bangor, Bethesda. |
| £10.00 | Er cof am Mrs.Megan Parry, Mynydd Llandygai, gan ei merch Alwena. |

**Diolch yn fawr**

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Dilynwch Llais Ogwan ar **www.llaisogwan.com**

## Annwyl Olygydd


Byddaf bob amser yn mwynhau darllen Llais Ogwen, ond y to hwn fe dynwyd fy sylw gan ddwy eitem. Wrth ddarllen y golofn Natur o'n Cwmpas roeddwn mor falch o ddeall y gellir gweld y wiwer goch o hyd o gwmpas Braichmelyn. Y tro cyntaf, a'r olaf, i mi ei gweld yng nghylch Dyffryn Ogwen oedd yn ystod yr eira mawr yn 1947, pan oeddwn yn sefyll, ymhlith ychydig eraill, ac yn pwyso ar y wal sy'n gwynebu Afon Ogwen gyferbyn a gwaelod Allt Caffi. Ar y pryd roedd cryn dipyn o weithwyr Ystad y Penrhyn yn gorffen torri bron yr holl goed enfawr a oedd ar y tir a oedd ar yr ochr arall i'r afon, ac yno fe'i gwelais yn rhedeg yn yr eira I gyfeiriad tro yr afon. Roeddwn yn meddwl fy mod wedi ei gweld ym Mharc Meurig tua 1950 on ni chefais olwg ddigon clir ohoni i fod yn sicr.

Fe gaf bleser wrth ddarllen am gyn bresylwyr Rhes Ogwen hefyd, a'r tro yma tynwyd fy sylw at Annie Bailey, a oedd yn bymtheg oed yn ol cyfrifiad 1901. Clywais fy Nhad unwaith yn dweud ein bod yn perthyn I Miss Bailey, a oedd yn athrawes yn yr Ysgol Sir, ac mae llun ohoni gyda staff yr ysgol yn 1923 yn llyfr Canmlwyddiant Ysgol Dyffryn Ogwen gan y diweddar Ddr.John Elwyn Hughes. Yn ôl cyfrifiad 1891 (Dwygyfylchi) mae hi yn bum mlwydd oed ar y pryd, ac wedi ei geni yno ac yn byw yn 'Bryn Arwel' gyda'i thad, Joseph, yn wreiddiol o Huddersfield, ac yn blymar, ei mam, Jane, yn wreiddiol o Fethesda, ac mae morwyn o'r enw Grace Jones, genedigol o Fethesda, yno hefyd. Methais yn anffodus darganfod y cysylltiad gyda'r teulu.

Yn gywir iawn
**W. Edgar Roberts**



# Cyrraedd y Nod




Pleser ydi cael cyhoeddi bod Pwyllgor Codi Arian Dyffryn Ogwen wedi llwyddo i gyrraedd y nod o £6,000 i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol yng Ngwynedd eleni.

Casglwyd cyfanswm terfynol o £6,586.40, a bellach mae'r cyfraniad hwn gan ein hardal wedi ei drosglwyddo i gronfa'r brifwyl.

Cafwyd cefnogaeth o sawl cyfeiriad, a dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd i sicrhau llwyddiant yr ymdrech.

Dymunwn yn dda i Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, ac edrychwn ymlaen at fwynhau'r wledd o ddiwylliant Cymraeg ym Moduan fis Awst.

Ar ran y pwyllgor,
**Ieuan Wyn** (Cadeirydd)
**Rhodri Evans** (Ysgrifennydd)
**Neville Hughes a Donna Watts** (Trysoryddion)

## Ail-ddefnyddio Gwisgoedd Ysgol

Ar ôl y llwyddiant a phoblogrwydd o'r cynllun Petha blwyddyn ddiwethaf, fydd Hwb Ogwen yn cydweithio efo ysgolion y Dyffryn tymor ysgol yma i gasglu ac ail-ddefnyddio gwisgoedd ysgol. Gobaith yw helpu teuluoedd arbed arian a chwtogi gwastraff.

Bydd biniau brown arbennig tu allan i'r ysgolion tan 19 Gorffennaf, felly plîs gollyngwch eich gwisgoedd ysgol sydd ddim yn ffitio bellach. Mae Hwb Ogwen yn fodlon derbyn unrhyw ddillad ysgol mewn cyflwr da, yn cynnwys dillad heb fathodyn ysgol.

Ar ôl i'r ysgolion cau, bydd y biniau mewn mannau casglu o gwmpas Dyffryn Ogwen, sef Plas Ffrancon, Swyddfa Dyffryn gwyrdd, Llyfrgell Bethesda a Chanolfan Tregarth.

Byddwn hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr sy'n fodlon helpu gyda'r golchi a phecynnu dillad, felly os oes gynnoch chi ddiddordeb, plîs cysylltwch efo anna@ogwen.org. Hwyrach ymlaen yn yr haf, bydd y dillad yn cael ei dosbarthu trwy Hwb Ogwen, felly cadwch lygad ar gyfryngau cymdeithasol am fwy o fanylion.




Yn gywir,
**Robyn Meredydd**



11 Mai 2023

## Annwyl Olygydd,

Fe hoffen ni alw ar eich darllenwyr i chwarae rhan yn Llais, y corff annibynnol cenedlaethol newydd ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Rydyn ni'n credu mewn Cymru iachach lle mae pobl** sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu clywed a'u cydnabod**.**

Lansiwyd Llais ddechrau'r mis ac, am y tro cyntaf, mae'n cyfuno iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n disodli'r saith Cyngor Iechyd Cymuned sydd wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gynrychioli barn cleifion y gwasanaeth iechyd gwladol ers hanner can mlynedd.

Mae angen gwirfoddolwyr o bob rhan o'r wlad i helpu i wneud Llais yn llwyddiant. Mae angen gwirfoddolwyr, i ymgysylltu a gwrando ar bobl eraill yn rhannu eu barn, cyn adrodd yn ôl i Llais.

Rydyn ni am glywed pob barn, ac i bob llais yng Nghymru ddylanwadu ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar bobl.

P'un a oes gan eich darllenwyr ddigonedd o amser rhydd, neu ddim ond ychydig oriau'r wythnos i'w sbario, mae amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli hyblyg ar gael.

Mae angen Casglwyr Adborth Ar-lein, fydd yn chwilio fforymau a'r cyfryngau cymdeithasol am farn ar iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â Gwirfoddolwyr Ymgysylltu Cymunedol fydd yn mynd allan i ddigwyddiadau gwybodaeth ac ymgysylltu ac yn sôn wrth bobl a grwpiau cymunedol am Llais ac yn gwrando ar eu barn.

Bydd ein Gwirfoddolwyr Ymweld yn mynd i leoliadau lle mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu darparu i glywed gan y rhai sy'n eu derbyn, fel meddygfeydd teulu neu gartrefi gofal, tra bydd Gwirfoddolwyr Ymweld Rhithwir yn cwrdd ar-lein â'r rhai nad ydyn nhw'n gallu cwrdd â nhw wyneb yn wyneb.

Bydd Gwirfoddolwyr Cynrychioli Llais yn gyfforddus yn ystyried adroddiadau ac ystadegau gan sicrhau eu bod yn adlewyrchu materion a chanfyddiadau yn gywir. Byddan nhw hefyd yn dod â safbwynt defnyddwyr gwasanaeth i mewn i'r drafodaeth gyda gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i lywio a dylanwadu ar y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Mae digon o gyfleoedd i'r rhai sy'n awyddus i helpu, neu sydd â diddordeb mewn gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, neu unrhyw un sydd wedi gweithio yn y naill sector neu'r llall yn y gorffennol ac sydd â dealltwriaeth werthfawr i'w rhannu erbyn hyn. Bydd ein gwirfoddolwyr yn cysylltu â chymunedau lleol fel ein bod yn cael clywed gan lawer o wahanol bobl ac yn defnyddio'r wybodaeth yma i helpu i wneud gwahaniaeth.

Rydyn ni'n awyddus i fod yn gynhwysol – i wrando ar unrhyw un yng Nghymru sydd â barn ar ofal iechyd neu ofal cymdeithasol maen nhw'n ei dderbyn neu wedi'i dderbyn neu wedi'i brofi drwy ofal cyfaill neu aelod o'r teulu.

Mae Llais yn croesawu unrhyw gyfraniad i helpu i wneud gwahaniaeth go iawn i ofal iechyd a gofal cymdeithasol. Cysylltwch â ni: www.llaiscymru.org/

Yn gywir,

**Yr Athro Medwin Hughes**
Cadeirydd, Llais

# Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
(01248 602509 / 07789 916166)
carenelaine@hotmail.com
**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. (01248 601526)

---

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Rhys a Sara Parry -Evans ar eu priodas ddiweddar. Cynhaliwyd y briodas yn y Styal Lodge yn Wimslow ar y 4ydd o Fehefin. Er nad ydi'r ddau yn byw yn Nyffryn Ogwen bellach, maent wedi eu geni a'u magu yma a gwreiddiau'r ddau'n ddwfn yn yr ardal. Mae Rhys yn fab i Davina a John Stryd Morgan, Gerlan a Sara yn ferch i Eleri ac Eurwyn ym Maes Bleddyn ac yn wyres i Anita a Gruff Gwernydd gynt. Gobeithio bod chi wedi cael diwrnod arbennig yn dathlu efo teulu a ffrindiau. Pob dymuniad da i chi'ch dau ar eich bywyd newydd.



**Dathlu dwbl**

Penblwydd hapus arbennig iawn i John Evans, Stryd Morgan a'i chwaer yng nghyfraith, Sandra Williams, yn Stryd Goronwy a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig ar y 14eg o Fehefin. Dwi ddim am ddweud oed y ddau, ond gallaf gadarnhau bod y ddau yn gymwys am drwydded bws erbyn hyn! Gobeithio bod chi wedi cael hwyl yn dathlu'r garreg filltir yma.

**Penblwydd hapus**

Penblwydd hapus i Ricky Florence Stryd Hir a oedd yn troi'n 50 mis yma. Siŵr bod 'na lot o hwyl wedi ei gael yn dathlu'r diwrnod arbennig yma. Gobeithio bod y dathliadau'n parhau!

**Geni**

Llongyfarchiadau mawr i Octavia ag Emlyn 1 Rhes Gerlan ar enedigaeth eu merch fach Willow Mai Williams. Wyres fach Delyth a Phil Owen o Tregarth, a Liz Hall Llanfairfechan, a gor wyres I Len ag Anthea Grisiau Cochion.

**Llwyddiant rygbi arbennig**

Mae 'na gymaint o chwaraewyr rygbi arbennig yn cael ei magu a'u meithrin yma ym Methesda. Un o'r bobl ifanc yma ydi Tomos Gai Hughes, Nant Graen, Braichmelyn, sef mab i Ceinwen a Gareth Hughes. Llongyfarchiadau mawr i ti Tomos wedi i ti gael dy ddewis fel Chwaraewr Rygbi'r Flwyddyn Adran 1 Gogledd Cymru drwy dy berfformiadau gwych tymor yma i Glwb Rygbi Bethesda. Mae'n bosib mai dyma'r tro cyntaf i chwaraewr o Glwb Bethesda dderbyn y gydnabyddiaeth anhygoel yma ac mae dy deulu i gyd yn hynod falch ohonot. Dal ati!

## Annwyl Olygydd,

Mae'n debyg bydd eich darllenwyr yn gyfarwydd iawn ag effeithiau dwy her ddifrifol sy'n wynebu nifer gynyddol o bobl yng nghymunedau Gwynedd ar hyn o bryd. Ar yr un llaw, mae pobl sydd efallai efo problemau iechyd neu symudedd sy'n ei gwneud yn anodd iddynt fyw'n annibynnol a chodi allan; ac ar y llaw arall, mae rheini sy'n ei chael yn anodd cael cartref fforddiadwy yn eu cymuned eu hunain.

Mae Cyngor Gwynedd wedi lansio rhaglen Rhannu Cartref Gwynedd, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r ddwy broblem ddyrys hon.

Mae Rhannu Cartref Gwynedd yn helpu pobl i gefnogi'i gilydd o dan yr un to. Mae rhywun sydd ag ystafell sbâr a sy'n chwilio am gwmni a rhywfaint o help ymarferol o gwmpas y tŷ – er enghraifft ychydig o help gyda siopa, coginio, llwytho'r peiriant golchi, neu hyd yn oed fynd â'r ci am dro – yn rhannu eu cartref gyda rhywun sy'n chwilio am lety fforddiadwy.

Yn bwysicach na dim, mae Rhannu Cartref yn cynnig cwmni, cefnogaeth a chyfeillgarwch i'r ddau unigolyn.

Ni fyddai rhent yn cael ei godi ond bydd ffi fechan yn daliadwy gan y naill a'r llall er mwyn gweinyddu'r cynllun. Mae diogelwch yn holl bwysig i'r cynllun hwn a bydd y Cyngor yn dilyn proses drylwyr wrth baru'n ofalus.

Tybed a oes gan eich darllenwyr ddiddordeb yn y cynllun hwn? Neu'n nabod unrhyw un allai elwa ohono? Mae mwy o wybodaeth ar wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.llyw.cymru/RhannuCartref. I holi am wybodaeth codwch y ffôn neu anfonwch neges draw i: 07388 859015 / rhannucartref@gwynedd.llyw.cymru




Diolch,

**Richard Wyn Williams**,
Cydlynydd Rhannu Cartref
Cyngor Gwynedd

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com



## Cadi Iolen

'Rwyf yn enedigol o ardal Rallt, Pentir, ac yn byw yn Rhiwlas – felly heb fentro'n bell iawn! Cefais fy addysg gynradd yn Ysgol Rhiwlas, ac yna symud ymlaen i Ysgol Dyffryn Ogwen ym Methesda. Bu imi astudio Hanes ac Astudiaethau Addysg ym Mhrifysgol Bangor ac wedyn ennill gradd Meistr mewn Astudiaethau Amgueddfaol (Museum Studies) ym Mhrifysgol Caerlŷr.

'Rwyf bellach wedi bod yn gweithio yn yr Amgueddfa fel Curadur ers 19 mlynedd, ac rwy'n mwynhau'r swydd yn arw. Mae'r gwaith rwyf yn ei wneud yn yr Amgueddfa yn aml 'tu ôl i'r llenni', a dwi'n siŵr bod sawl un ddim yn ymwybodol o beth ydi swydd Curadur. Pe tasa raid imi ddisgrifio fy nghyfrifoldebau mewn un frawddeg, dyma fydda hi:-

"Gofalu am gasgliad Amgueddfa Lechi Cymru"

'Casgliad' ydi'r gair mae amgueddfeydd yn defnyddio i ddisgrifio'r pethau neu'r gwrthrychau yn yr amgueddfa. Gwrthrychau ydi craidd unrhyw amgueddfa – dyma'r symbolau hanesyddol sydd yn cynrychioli ein hanes i'r genhedlaeth nesaf. Mae dros 13,000 o wrthrychau yng nghasgliad Amgueddfa Lechi Cymru, a rheiny wedi eu casglu o bob cwr o Gymru.

Mae Amgueddfa Lechi Cymru yn safle prysur a byrlymus – galwch draw i weld ein ffilm gyflwyniadol newydd; ein chwarelwyr a'n gofaint yn arddangos eu crefft; rhyfeddwch at fawredd ein holwyn ddŵr enfawr; crwydrwch trwy'r hen weithdai; a chamwch nôl mewn amser yn Fron Haul, ein teras o dai chwarelwyr. Mae'r Amgueddfa ar agor bob dydd (10 – 5pm, gyda mynediad olaf am 4.30pm), ac mae'n rhad ac am ddim!

# Llandygái

## Eglwys Sant Tegai, Llandygai

**Gwyliau!**
Dymunwn wyliau dedwydd iawn i holl blant a staff ein ysgol eglwys, Ysgol Llandygai, ac wrth gwrs i'n gwirfoddolwyr, ffrindiau a chefnogwyr yn y pentref ac ymhellach. Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth ffyddlon dros flwyddyn llawn bwrlwm.

**Diolch**
Diolch eto i aelodau'r gynulleidfa ac i gefnogwyr allanol am barhau i gyfrannu'n ariannol ac am ymateb mor ffyddlon i Apêl Mis Rhodd St Tegai ym Mehefin.

Unrhyw fanylion pellach gan y swyddogion Ann E. Williams (Warden y Ficer), Llwyn Coed, 9 Llwyn Bleddyn, Llanllechid, Bangor, Gwynedd. LL57 3EF (Ffôn 01248 600719)
Nerys Jones (Ysgrifennydd yr Eglwys a Sacristan), 2 Bryn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd. LL57 4LD (Ffôn 01248 354369)
Edmond Douglas Pennant (Trysorydd a Warden y Bobl), Lodge Drws Melyn, Pentre Llandygai, Bangor, Gwynedd LL57 4HU.

**Dymuniadau gorau**
Parhawn i gadw Helen Gill a Liz Jones yn ein gweddïau wrth iddynt dderbyn triniaeth hir-dymor am eu cyflwr. Rydym yn falch fod Muriel Owen, un o'n cefnogwyr selog, wedi gwella'n dda ar ôl ei chodwm. Braf gweld eich bod allan o gwmpas y pentref eto, Muriel!

**Colledion Trist**
Cydymdeimlir yn fawr ag Anne (BT) Williams, Talybont yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer Brenda Thomas ar ôl cystudd hir mewn cartref gofal yn Llanfairpwll. Estynnwn hefyd ein cydymdeimlad dwysaf i Jan Roberts, Maesgeirchen, a'i theulu yn eu colled o briod a thad annwyl. Bu farw Mick yn Ysbyty Gwynedd ar ôl fisoedd o waeledd. Wythnos yn ddiweddarach cawsom y newyddion trist fod Pat Jones, Bangor o'r gynulleidfa wedi colli'r frwydr. Cydymdeimlwn a'i mab Geraint a'r teulu estynedig.



Cyfarfod Gardd Gymunedol

**Cyfarfod yr Ardd Gymunedol**
Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghastell Penrhyn wedi bod mewn trafodaeth â'r ysgol eglwys, Ysgol Llandygai, yr Eglwys a phentref Llandygai i ddatblygu gardd gymunedol wrth y "Grand Lodge". Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Talgai ar Fehefin 6ed i arddangos cyfraniadau'r plant a thrafod cynlluniau pellach. Cyflwynodd Gethin Crump, Prif Arddwr Penrhyn, ei weledigaeth a gofynnodd am syniadau. Mae'n galonogol gweld yr ymdrech i ddod a'r castell, eglwys a phentref ynghyd i nodi'r cysylltiad clos. Mae'n enghraifft arall o St Tegai a'r ysgol eglwys yn ymestyn allan a chyfrannu i'r gymuned.

**Eglwys Agored**
Mae'r eglwys ar agor i bawb yn ddyddiol o ganol bore tan hwyr prynhawn fel rhan o'r cynllun cenedlaethol "Eglwysi Agored". Gallwch ddarganfod hanes yr eglwys ar bosteri a labelau yn yr adeilad.

**Gwasanaethau**
**Ar y Sul**
Mae'r gwasanaethau St Tegai am 11.00 ar yr ail a'r pedwerydd Sul yn y mis. Gweler rota eglwysi Bro Ogwen ym mhorth yr eglwys.

**Ar Ddydd Mercher**
Gwasanaeth 10.30, paned a sgwrs i ddilyn, ar yr ail a'r pedwerydd Mercher yn y mis. Os na ddymunwch fynychu'r gwasanaeth, mae dal croeso i chi ymuno â ni am y baned a sgwrs sy'n dilyn.

**Manylion Cyswllt**
Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Arweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglŷn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys.



**Lle i'r enaid gael llonydd**
Mae'r fainc goffa yn ôl yn ei lle! Yn dilyn difrod stormydd mis Mawrth cawsom gynnig caredig i drwsio'r fainc gan un o'n cefnogwyr. Rydym yn ddiolchgar iawn am y gwaith mawr o roi'r darnau at ei gilydd mor gain. Mae'r fainc yn annwyl iawn i'r pentrefwyr ac ymwelwyr sydd yn mwynhau seibiant a munudau o heddwch yn y fynwent.

# Roc y Ddol

Wedi blwyddyn gyfan o drafod a cynllunio daeth y diwrnod mawr Roc y Ddol, 2023 i gaeau Dol Ddafydd. Er y cychwyn gwlyb daeth yn haul allan a'r Ddyffryn Ogwen a cafwyd diwrnod anghygoel o gerddoriaeth Cymraeg.

Cychwynodd y diwrnod gan Gôr Law yn Llaw, Côr o Ward Alaw Ysbyty Gwynedd. Dilynwyd gan fand newydd o Fethesda, Dafydd Goch a'r Dihirod. Braf oedd croesawu Dylan Morris, enillydd Can i Gymru 2023, yn nôl i'r Clwb Rygbi. Dilynwyd gan Hogia'r Bonc a band ifanc newydd, sydd yn brysur gwneud enw iddyn nhw eu hunain, SOAP. Diddanodd Rhys Meirion y gynulleidfa drwy berfformio Anfonaf Angel gyda'i gitar am y tro cyntaf. Daeth Côr Y Penrhyn ymlaen wedyn i ddiddanu pobl Pesda. Ymunodd Rhys Meirion ac Elin Fflur i ganu Byd o Heddwch gyda'r Côr, can amserol iawn.

Elin Fflur a'r Band oedd nesaf ar y llwyfan yn canu ei chaneuon poblogaidd, roedd hi'n dechrau llenwi o flaen y llwyfan erbyn hyn a cryn dipyn o ddawnsio!

Fleur de Lys oedd yn dilyn gyda set llawn egni a Caeau Dol Ddafydd yn rocio!

Braf iawn oedd cael croesawy Dafydd Iwan a'r Band, yn amwlg roedd Dafydd yn plesio "Cymru hen ac ifanc"! Gorffenodd ei set gyda Yma o Hyd ac I'r Gad a cynulleidfa Dol Ddafydd yn morio canu.

I gau y noson cafwyd awr a hanner o ganeuon poblogaidd Celt gyda'r gynulleidfa yn gwybod pob gair. Codi'r to ddaru Celt, er ei fod yn gyngerdd tu allan!

Dymuna Pwyllgor Roc y Ddol ddiolch i pawb a gyfranodd a cefnogi i allu creu y digwyddiad yma. Llwyddiant ysgubol a braf oedd gweld cymuned Bethesda yn mwynhau diwrnod arbenig.

Ymalen i drefnu Roc y Ddol 2024 rwan.










HYWEL WILLIAMS

AELOD SENEDDOL DROS ARFON



CYSYLLTWCH:

01286 672076

70 Stryd Fawr, Bangor

hywel.williams.mp@parliament.uk

YMA I BOBOL DYFFRYN OGWEN AC ARFON

SIÂN GWENLLIAN

AELOD O'R SENEDD DROS ARFON

CYSYLLTWCH:

sian.gwenllian@senedd.cymru

01286 672 076

70 Stryd Fawr, Bangor

Senedd Cymru
Welsh Parliament



Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Gomisiwn y Senedd o gronfeydd cyhoeddus

## Glasinfryn a Chaerhun

**Mair Griffiths**, (352966)
mairpenybryn@gmail.com

### Bingo

Cafwyd noson hwyliog yn y Bingo yn y Ganolfan ar 23 Gorffennaf.

Codwyd £145 er budd Banc Bwyd y Gadeirlan. Diolch yn fawr iawn i bawb am eich cyfraniadau a chefnogaeth. Bydd y Bingo nesaf ar 28 Gorffennaf, am 7yh, gyda'r elw yn mynd at Banc Bwyd y Gadeirlan unwaith eto. Fel arfer os oes ganddoch gyfraniadau tuag at y gwobrau, raffl neu tombola bydd Ann, 4 Bro Infryn yn falch iawn ohonynt.

### Gŵyl Gwenllian

Ar benwythnos yn nechrau Mehefin, cynhaliwyd Ŵyl Gwenllian llwyddiannus iawn ym Methesda, drwy gynnal gweithgareddau yn dathlu Merched y Carneddau. Un o'r ardal a gymerodd ran yn un o'r gweithgareddau, y Sgwrs Panel Celf, oedd Anna Pritchard, Dylunydd Tecstiliau, Bryn Gwredog Isaf, Waen Wen. 'Roedd y panel o bedwar yn trafod eu gwaith ac o ble y daw eu syniadau a'u ysbrydoliaeth. Mae Anna yn creu gwehyddiadau o'i chynefin a thraddodiadau ffermio y Dyffryn,ac yna yn gwneud clustogau, blancedi a gorchuddio cadeiriau a stôliau. Mae ei gwaith yn werth i'w gweld! Bydd yn arddangos yn yr Eisteddfod ym Modeuan yn mis Awst, pob dymuniad da iddi.

### Cylch Glasinfryn

Daeth nifer dda i gyfarfod Cylch ar 14 Mehefin. Cyflwynodd Mair y siaradwr gwâdd, Avril Wayte, sydd yn Gadeirydd "Cyfeillion Pier Bangor". Rhoddodd Avril sgwrs ddifyr iawn ar sut mae'r Pier wedi cael ei adnewyddu dros y chwe blynedd diwethaf, pan oedd mewn cyflwr drwg ac ychydig o arian ar gael i wneud yr atgyweirio angenrheidiol. Dros y blynyddoedd diwethaf mae Cyfeillion y Pier wedi cynnal llawer o weithgareddau llwyddiannus ac wedi denu mwy o wirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith i wireddu y gwaith angenrheidiol i'r adeilad eiconic. Yn 2022 gwobrwywyd y Pier yn "Pier y Flwyddyn" ac mae wedi dwyn sylw yn fyd eang. Pwysleisiodd Avril am yr angen i ddenu mwy o wirfoddolwyr i roi ryw ddwy awr ar y tro i weithio yn y siop sydd ganddynt ar y Pier a'r ciosg i dalu mynediad, sydd ond yn 50c! Mae'r rhain yn unig wedi dod a £70,000 y flwyddyn at gynhaliaeth y Pier.

Rhoddwyd y diolchiadau gan Jocelyn. Liz a Doreen ddarparodd y lluniaeth.

Awn am ymweliad i Stiwdio Ann Pritchard yn Waen Wen ar 12 Orffennaf. Ni fydd cyfarfod ym mis Awst. Ar 13 Medi am 2yp, edrychwn ymlaen at Arddangosfa Gosod Blodau gyda Rachel Williams. Croeso cynnes i aelod hen a newydd i'r cyfarfod.

### Arddangosfa Arlunio

Mae'r Grŵp Arlunio, sydd yn cyfarfod yn y Ganolfan ar fore Gwener, yn cynnal Arddangosfa o'u gwaith yn y Ganolfan ar 17, 18 ac 19 Awst o 11.00yb – 3.30yp, mynediad am ddim. Galwch i mewn i weld eu gwaith sydd yn amriwiol iawn, mae yn werth ei weld!

## YSGOL PENYBRYN

### Eisteddfod Gadeiriol Ysgol Penybryn 2023

Pa ffordd well o ddathlu diwedd hanner tymor na thrwy gynnal Eisteddfod Gadeiriol, y cyntaf erioed yn hanes yr ysgol? Mae'n anodd egluro'r brwdfrydedd, a'r cynnwrf a gafwyd wrth i bawb fynd ati i baratoi at y diwrnod mawr! Gydol yr wythnos bu'r plant yn paratoi ar gyfer cystadlu mewn ystod eang o gystadlaethau megis llawysgrifen, gwaith celf, coginio, llefaru, canu, dawnsio, talent a llawer mwy. Roedd yr ysgol yn byrlymu o sŵn canu, llefaru,offerynnau a cherddoriaeth diri- pawb am y gorau i gasglu pwyntiau i'w tai Ffryslas, Caseg a Llafar.

O'r diwedd fe gyrhaeddodd y diwrnod hir disgwyliedig, a phawb yn barod i groesawu ein beirniad amryddawn, Mrs Linda Brown. Bu cystadlu brwd gydol y bore, a medalau lu yn cael eu cyflwyno i'r buddugwyr. Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang a chynnwrf a sŵn chymeradwyo yn atseinio'r holl ffordd i Rachub, dybiwn i. Pinacl y bore oedd clywed ein beirniaid yn traddodi'r feirniadaeth i gystadleuaeth y cadeirio- sef cyfansoddi stori fer ar y teitl 'Peiriant Amser" Cyflwynwyd pedair cadair hardd dros ben i'r llenorion ifanc, ac fe'u cyfarchwyd gan ddawns flodau gan staff yr ysgol. Golygfa a hanner! Do, cawsom ddiwrnod i'r brenin, a chafodd y plant brofiadau fydd ar gof a chadw am byth. Hir oes i'r Eisteddfod ym Mhenybryn, a diolch i'r holl rieni, staff a phlant am eich gwaith hynod o galed. A diolch enfawr i Linda Brown am fod yn feirniad gwerth chweil!



### Diolch

Diolch yn fawr i'r Parchedig Sara Roberts am ddod draw atom yn rheolaidd i gynnal gwasanaethau i'r plant. Mae' plant yn mwynhau'r straeon amrywiol a'r negeseuon rydych yn ei gyflwyno mewn ffordd ddifyr. Diolch!

Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen
Plaid Cymru



Tregarth a Mynydd Llandygai • cynghorydd.BecaRoberts@gwynedd.llyw.cymru • 07436 927237
Gerlan • cynghorydd.EinirWynWilliams@gwynedd.llyw.cymru • 07747 690456
Canol Bethesda • cynghorydd.RheinalltPuw@gwynedd.llyw.cymru • 07789 742092
Arllechwedd • cynghorydd.DafyddMeurig@gwynedd.llyw.cymru •07765 400140
Rachub • cynghorydd.PaulRowlinson@gwynedd.llyw.cymru • 07949 034967

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk





**TRIP I LAN Y MÔR**

Fel rhan o'r thema 'O dan y môr' cafodd y plant Abercaseg fodd i fyw yn cael ymweld â thraeth Llanfairfechan yn ddiweddar. Braf oedd gweld y mwynhad ar wyneb y plant wrth iddynt ddysgu am y creaduriaid sydd yn byw ar y traeth ac yn wir, llwyddwyd i adeiladu cestyll gwerth chweil! Gwelwyd bysgodyn jeli anferth a chranc, roedd y plant (a'r staff!) wrth eu boddau!

**Taith Antur Blwyddyn 3 a 4**

Fel rhan o'n thema 'Beth sydd i'w ddarganfod wrth fynd am dro?" fe heidiodd llond bws o blant blwyddyn 3 a 4 i dre'r Cofis i fwynhau diwrnod hwyliog a phrysur. Roedd yn haul yn gwenu'n braf wrth i'r plant forio canu 'Fflat Huw Puw' ar y Queen of the Sea, a mwynhau ym Mharc Dros yr Aber. Pinacl y diwrnod heb os oedd hufen ia blasus yng Nghaffi Palas gan Gwenlli ac Enid. Diwrnod i'w gofio yn bendant.

**Achubwyr Mynydd Dyffryn Ogwen**

Cafodd blwyddyn 5 a 6 ymweliad gan Achubwyr Mynydd Dyffryn Ogwen fel rhan o'u gwaith Dyniaethau. Diddorol oedd clywed am eu gwaith anhygoel, a pha mor ddewr a gwerthfawr yw eu cyfraniad i'n hardal leol. Diolch yn fawr, ac edrychwn ymlaen at gyd-weithio gyda chi yn y dyfodol agos.

**Diwrnod Môr Ladron**

Er mwyn dilyn diddordebau'r plant, penderfynom gynnal diwrnod ar y thêm Môr Ladron. Dyma ddiwrnod gwerth chweil yn llawn o brofiadau gwerthfawr sydd yn mynd i fod ar gof a chadw am byth. Roedd rhaid i'r plant weithio fel tîm er mwyn datrys problem o groesi'r afon ac adeiladu cychod gydag adnoddau ailgylchu ymysg nifer o weithgareddau hwyliog eraill.

**Prynhawn agored Meithrin**

Braf oedd gweld y plant fydd yn dechrau yn y Meithrin yn treulio'r prynhawn yn eu dosbarth newydd. Cawsom brynhawn pleserus yn dod i adnabod y plant a'u rhieni. Edrychwn ymlaen at eich croesawu i Ysgol Abercaseg ym mis Medi.

**Diwrnod Trosglwyddo**

Bu cynnwrf enfawr yn Ysgol Abercaseg yn ddiweddar wrth i'r plant drosglwyddo i'w dosbarthiadau newydd am y bore! Roeddent wrth eu boddau yn treulio amser yn eu dosbarthiadau newydd a gyda'u hathrawon newydd. Gwych oedd gweld plant Blwyddyn 2 Abercaseg wedi ymgartrefu yn Ysgol Pen y bryn yn ystod y diwrnod trosglwyddo hefyd, wrth iddynt dreulio'r diwrnod yno. Mae ymgyfarwyddo gydag ysgol newydd yn gam enfawr, ond mi lwyddodd y plant i setlo'n syth ac wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

**Mabolgampau**

Uchafbwynt y flwyddyn yw cystadlu yn y Mabolgampau! Cawsom ddiwrnod i'w gofio yn llawn hwyl a bwrlwm. Diolch i Gyfeillion yr ysgol ac i Mrs Sioned Jones am sicrhau fod stondinau ar gael ar y diwrnod i gasglu arian.

**Gwasanaethau Ffarwelio Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6**

Mae'r amser i ffarwelio gyda Blwyddyn 2, Abercaseg a Blwyddyn 6, Pen-y-bryn wedi cyrraedd unwaith eto. Cawsom wasanaethau arbennig gan y disgyblion. Diolchwn am eich gwaith caled yn ystod y flwyddyn a dymunwn y gorau i chi yn Ysgol Pen y Bryn ac yn Ysgol Dyffryn Ogwen.

**Tripiau Diwedd y Flwyddyn**

Heb os, dyma binacl y flwyddyn! Dyma gyfle perffaith i ddathlu llwyddiannau'r plant dros y flwyddyn. Cafodd plant o'r Meithrin i Flwyddyn 1 drip arbennig i Fferm y Foel. Roedd y plant wrth eu boddau yn cael gweld a bwydo'r anifeiliaid. Gwych oedd gweld Blwyddyn 2 yn rhannu eu trip gyda phant Pen-y-bryn yng Ngelli Gyffwrdd. Dyma ddiwrnod yn llawn cynnwrf a braf oedd gweld y mwynhad oedd ar wynebau'r plant.

Edrychwn ymlaen yn arw i groesawu'r plant yn ôl ym mis Medi, a dymunwn wyliau hapus iawn i'r staff a'r plant. Diolch yn arbennig i'r staff am eu gwaith diflino ar hyd y flwyddyn.

**Criced**

Bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth criced ysgolion cynradd Eryri. Cawsant ddiwrnod gwych, a bu cystadlu brwd rhwng yr ysgolion ar ddiwrnod tanbaid. Diolch yn fawr i'r holl drefnwyr am eu gwaith caled.



Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar **@Llais_Ogwan**

**post@llaisogwan.com**

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, Pont Llan, Llanllechid, Bangor, LL57 3LE (07887624459)
henbarc13@gmail.com

Mynegwn ein cydymdeimlad â theuleuoedd Bryn Evans Rachub a Dafydd Jones Llan ar golli mam, mam yng nghyfraith a nain annwyl, sef Mrs Rita Evans Erw Las.

Llongyfarchiadau i Alys Mair Williams (Henbarc gynt) ar gael e phenodi i swydd Arolygydd o fewn Heddlu Metropolitan Llundain.

## Carneddi

**Pen-blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau i Victor Roberts, Cilfodan ar ddathlu ei ben-blwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Clywsom ei fod wedi derbyn cyfarchion arbennig nid yn unig gan ei gymdogion a'i gyfeillion ond hefyd gan ddisgyblion a staff Ysgol Dyffryn Ogwen ble mae'n gweithio fel gyrrwr. Mae Vic yn gymwynaswr lleol, a dymunwn yn dda iddo i'r dyfodol.

**Llwyddiant**
Rydym yn falch iawn o ddeall bod Manuela Niemetscheck, Ffordd Carneddi wedi cael ei dewis yn un o'r pedwar sydd yn nherfynol cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yr Eisteddfod Genedlaethol – a hynny allan o 30. Mae hi wedi gwneud yn arbennig o dda i gyrraedd y pedwar terfynol, a diolchwn iddi am ei chefnogaeth i'n hiaith a'i pharodrwydd i'w defnyddio yn ei gwaith fel seicotherapydd yn yr ysbyty ac yn y gymuned. Pob hwyl, Manuela.

## Carmel Llanllechid

Un bore Sul braf iawn ym mis Mehefin, bu plant yr Ysgol Sul yn plannu blodau y tu allan i'r ysgoldy. Diolch i Dafydd Coetmor Williams am ddod atom ni i helpu'r plant. Yna, ar ôl gorffen plannu, aeth y plant i beintio lluniau blodau lliwgar a dysgu'r emyn: Tydi sy'n galw'r blod

**Yr Ysgol Sul**
au I harddu maes a dôl
O galw ni i rodio yn brydferth ar dy ôl.

Daeth plant bach Dosbarth Meithrin Ysgol Llanllechid, rhyw 30 ohonyn nhw, ar fore yn ystod yr wythnos i blannu blodau mewn potiau o flaen y capel. Roedd hi'n braf cael eu croesawu a chael dweud stori a chanu yn hapus efo nhw. Diolch i'w hathrawes, Mrs Lois Nottingham, am ddod â'r plant ac am eu helpu nhw i blannu'r blodau.

**Clwb Dwylo Prysur**
Ar nos Wener boeth iawn, mi gawsom ni adael yr ysgoldy am unwaith a mynd am dro i Llan ac wedyn i lawr yr allt i Faes y Groes gan sylwi ar enwau'r ffermydd ar hyd y ffordd. Mi wnaethom ni droi yn ein holau i fyny Lôn Goed a heibio Neuadd Cochwillan ar ein ffordd a thros bont fechan Dolau Hirion. Roedd yr haul yn taro cymaint, mi wnaethom ni benderfynu torri ychydig ar y daith a mynd yn ôl am Rachub ar hyd lôn Tal y Sarn ac at y cae chwarae. Mi gawsom ni rywbeth neis i'w fwyta yn yr ysgoldy. Diolch i Mr Bryan Griffith a Mrs Ffion Rowlinson am ddod efo ni.

Rydym ni'n llongyfarch un o'n cyn-aelodau ffyddlon iawn ni, Gwydion Rees, ar ei lwyddiant mawr yn ennill Tlws y Cerddor fel adroddwyd ar dudalen flaen y Llais fis diwethaf.

Rydym ni'n dymuno yn dda i un arall hefyd sydd wedi bod yn ffyddlon iawn i'r clwb am flynyddoedd, Cerys Davies. Bydd Cerys yn dechrau ym Mhrifysgol Bangor yn yr hydref.

*Gwasanaethau*
*(am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol)*
Gorffennaf 16: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Gorffennaf 23: Gweinidog.
Awst: Dim Oedfa.
Medi 3: Oedfa.
Medi 10: Parchg. Glenys Jones.
Medi 17: Oedfa.

CROESO CYNNES I BAWB

**Cyngor Cymuned Llanllechid Mehefin**
Cynhaliwyd Cyfarfod Misol y Cyngor Cymuned ar y 9fed o Fehefin yn Festri Capel Bethlehem, Talybont.

Yn gyntaf, hoffai Cyngor Cymuned Llanllechid longyfarch trefnwyr Carnifal Bethesda ac y Sioe Amaethyddol am eu llwyddiant eleni.

Ymunodd Abbie Edwards o Bartneriaeth Tirwedd y Carneddau a'r cyfarfod I drafod pryderon y ffermwyr am baragleidwyr ar y mynydd. Trefnwyd osod arwyddion ar y giatiau mynydd yn egluro fod y mynydd bellach ar gau i baragleidio tan mis Medi. Mae'r arwyddion hefyd yn cynnwys eglurhad. Hefyd, cafwyd cyflwyniad gan yr artist Siwan Llynor am brosiect creadigol o'r Carneddau sydd ar y gweill. Edrychwn ymlaen i hyn.

Hoffai'r is-bwyllgor llwybrau erfyn ar y darllenwyr, os ydynt yn gwybod am unrhyw lwybrau troed yn y plwyf sydd angen eu torri a fysant mor garedig a cysylltu â'r clerc cyngorllanllechid@ogwen.org. Diolch yn fawr.





# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
(01248 601318) carys16@hotmail.com

**Profedigaeth**
Anfonwn ein cydymdeimlad at ddau deulu a brofodd brofedigaeth yn ddiweddar, sef Carolien, Pentir wedi iddi golli ei mam a John Parkinson 'Rallt wedi iddo ef hefyd golli ei fam.

**Cinio mawreddog**
Cynhaliwyd cinio blynyddol ardal Pentir ar ddiwrnod braf yn ystod y mis. Daeth nifer dda ynghyd i fwynhau amrywiaeth o ddanteithion, i flasu gwin da a mwynhau cwmnïaeth ddifyr.

Diolch i bawb fu'n rhan o'r trefnu yn enwedig Michelle a Linda. Edrychwn ymlaen at y nesaf yn 2024!

# Mynydd Llandygai

(Nid oes gohebydd gan Mynydd erbyn hyn, os oes rhywun yn barod i yrru hanesion i'r Llais cysylltwch ag un o'r golygyddion ar dudalen 2)

Dymuna Alwena a'r teulu oll ddatgan eu gwerthfawrogiad am bob arwydd o gydymdeimlad ddangoswyd iddynt wedi eu profedigaeth trist yn ddiweddar o golli Mam, Nain a hen Nain, sef Mrs Megan Parry.

Diolch yn fawr i'r Parchedig Dafydd Coetmor am y gwasanaeth gwerthfawr a theimladwy; i Sharon Plas Ogwen am ei theyrnged didwyll ac i Gareth am ei gyfraniad wrth yr organ.

Diolch i'r ymgymerwr Stephen Jones am ei drefniadaeth trylwyr ac urddasol iawn.

Derbyniwyd rhoddion o £500, yn ddiolchgar iawn er cof am Mam sydd yn mynd at gronfa mwynderau Plas Ogwen fel gwerthfawrogiad am y gofal a'r caredigrwydd diflino a ddebyniodd Mam yno. Diolch o galon i bawb.

**Neuadd Goffa**
Mae'r Gyfrinach allan o'r diwedd!! Mae'n bleser croesawu Debra Drake o'r "Great British Sewing Bee" i'n Neuadd Goffa ar yr 21ain o Orffennaf!! Mae hi wedi cytuno'n garedig i gynnal Noson i sgwrsio am ei phrofiadau ar Dymor 8 o The Great British Sewing Bee ble gyrhaeddodd y Rownd Derfynol. Bydd cyfle i weld ei chreadigaethau enwog o'r sioe a darganfod sut mae'r sioe wedi ei helpu gyda'i breuddwyd o agor ei hysgol wnïo ei hun. Digwyddiad â thocyn am £10 y pen yn unig fydd hwn sy'n cynnwys paned o de, sleisen o gacen a sgwrs! Bydd yr holl elw yn mynd i Gronfa Neuadd Goffa. Rydym yn rhagweld y bydd y tocynnau'n gwerthu'n gyflym felly bydd hyn ar sail cyntaf i'r felin. Cysylltwch â Jude Williams i gadw eich tocynnau JudeyJu99@googlemail.com

**Cylch Meithrin**
Mae'r Cylch Meithrin yn derbyn enwau ar gyfer mis Medi! Mae'r Cylch yn derbyn plant fydd yn 2 neu 3 oed cyn mis Medi – cysylltwch â'r Cylch ar 07762 723730 am wybodaeth.

Mae'r Cylch hefyd yn chwilio am wirfoddolwyr i ymwneud â phob math o weithgareddau megis codi arian, marchnata a chynorthwyo'r Pwyllgor. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â Ffion ar cadeiryddml@gmail.com.

Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation
Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

## ADUNIAD YSGOL DYFFRYN OGWEN

Mae'n fwriad cynnal aduniad o gyn-ddisgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen yn y Clwb Rygbi, Bethesda ar nos Wener, Medi 1af. i gychwyn am 7pm. Yn hytrach na phenodi blynyddoedd penodol mae'r gwahoddiad yno i unrhyw gyn-ddisgybl dros 70 oed. Ar y noson fe ddarperir adloniant gan Hogiau'r Bonc. Os bydd rhywun yn dymuno archebu bwyd ar y noson gellir dewis oddi ar fwydlen y clwb, a thalu'n unigol. Edrychwn ymlaen am noson gymdeithasol hwyliog a chyfle i ail fyw sawl stori/ digwyddiad/cymeriad o'r oes honno.



## Eglwys Sant Cedol

**Te Bach**
Prynhawn Mercher, 7fed Mehefin cynhaliwyd ein Te Bach misol. Roedd yn brynhawn llwyddiannus a hwyliog. Enillwyd gwobyr gyntaf y raffl gan Edmund, sef pêl wydyr. Aeth yr ail wobyr i Gaynor sef potel gwin a'r drydedd wobyr i Mair sef bocs o siocled. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Bydd y Te Bach yn cael ei gynnal ar brynhawn Mercher cyntaf o'r mis am 2 o'r gloch y prynhawn a'r nesaf ar y 5ed Gorffennaf. Mae croeso cynnes i chwi ymuno gyda ni am brynhawn hwyliog gyda phaned, teisen a sgwrs.

**Hamper Misol**
Rydym yn cynnal Raffl Hamper Misol ar themâu gwahanol pob mis er mwyn codi arian i gynnal yr eglwys. Enillydd hamper mis Mehefin oedd Alison Ellis a'r hamper yn rhoddedig gan Gwyn. Gwyn Jones ei hun gafodd yr ail wobr, sef potel gwin.

Hoffwn ddiolch i'r aelodau, eu teuluoedd a'r teuluoedd estynedig am fod mor barod i brynu'r tocynnau raffl. Hefyd, i'r aelodau a ffrindiau sydd wedi bod mor hael yn eu rhoddion o'r haperi. Diolch o galon i chi gyd.

**Bore Coffi**
Fore Sadwrn y 13eg Mehefin cynhaliwyd bore coffi yng Nghanolfan Glasinfryn. Roedd stondinau cynnyrch cartref a thombola gyda raffl. Roedd yn fore llwyddiannus a diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Bydd y bore coffi nesaf ym mis Medi, dyddiad i'w gadarnhau.

**Gwasanaethau**
Mae gwasanaeth pob bore Sul am 9.30 ac mae croeso cynnes i bawb ymuno gyda ni gyda phaned a sgwrs i ddilyn.

**Manylion cyswllt**
Os am drefnu priodas neu fedydd neu unrhyw fater arall yn ymwneud â'r eglwys cysylltwch gyda'r Parchedig Dr Gareth Lloyd, Arweinydd Ardal Gweinidogaethol Bro Ogwen gareth.lloyd@cantab.net neu 01248 361521. Cofiwch fod Nia (warden) 07719 918686 ar gael am unrhyw wybodaeth neu os am sgwrs.

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda (600853)
**Barbara Jones**, 1 Dol Helyg, Talybont (353500)

**Profedigaeth**
Clywsom gyda thristwch am farwolaeth Idris Thomas, 16 Dolhelyg, wedi cyfnod maith yn Ysbyty Gwynedd. Yr oedd o fewn dau fis i ddathlu ei benblwydd yn 95 oed.

Daeth y teulu i Ddolhelyg 46 o flynyddoedd yn ôl, wedi i Idris roi'r gorau i amaethu. Bu'n gweithio i'r Cyngor am sbel ar ôl hynny. Yr oedd yn gymeriad a hanner ac yn Gymro i'r carn.

Pan ballodd côf ei briod, Rose, gofalodd yn dyner amdani nes iddi orfod mynd i Gartref Gofal, lle bu farw dros dair blynedd yn ôl.

Brwydrodd Idris yn galed i'r pen eithaf i gadw ei annibynniaeth. Bu'n ôl a blaen i'r ysbyty sawl tro yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, ond llwyddodd i ddod adref er gwaethaf pob anhawster, nes iddi ddod yn amlwg i bawb na fyddai hynny'n bosibl bellach. Yn sicr, ni fuasai wedi gallu aros yn ei gartref gyhyd heb gymorth diflino ei feibion, Arfon a Henry, ei ŵyr, Geraint, a'i Ofalwyr.

Bu farw'n dawel a disymwth ar y 6ed o Fehefin, cyn gorfod gwynebu newid na fyddai byth wedi'i oroesi.

Arfon a Henry, estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch i gyd fel teulu ar adeg drist iawn. Byddwn yn eich colli'n arw o Ddolhelyg.

**Cartref newydd**
Croeso i 4 Bro Emrys i Catrin a Brad a'i merch fach, Megan Efa, a aned ym mis Mai. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

**Brysiwch wella**
Dyna ddymuniad pentrefwyr Talybont i Rita Hughes (Post) sydd wedi cael profion yn Ysbyty Gwynedd ac i Linda Jones, Sŵn y Nant, Maes y Groes sydd hefyd wedi bod o dan y don yn ddiweddar. Mae'r ddwy wastad yn llawn hwyl, ac yn glên a chroesawus wrth bawb.

Cofiwn yn gynnes iawn at Nev (Fearnley) sydd gartref erbyn hyn yn Helyg, Tyddyn Cottages, ac at Mag, ei wraig, sydd mor ofalus ohono.

**Cyfarchion a chydymdeimlad**
Dymuniadau gorau i Anne Williams, Bro Emrys a ddathlodd benblwydd arbennig y mis diwethaf.

Ar yr un pryd, estynwn gydymeimlad ati yn ei phrofedigaeth lem o golli chwaer yng nghanol mis Mehefin. Bydd llawer ohonoch yn cofio'r ddiweddar Brenda Thomas yn cadw'r Swyddfa Bost ym Maesgeirchen erstalwm.

Llongyfarchwn Keith a Sandra, 13 Dolhelyg, ar ddod yn daid a nain ddwywaith yn yr un wythnos. Ar Fehefin 5ed ganed hogyn bach, Rome Presley, i'w mab hynaf Daniel a'i gymar Melissa, a dau ddiwrnod yn ddiweddarach, daeth Carson Elliot i'r byd. Mae Carson yn blentyn i'w merch Leanne a'i chymar Simon, ac yn frawd bach i Alina fydd yn dair oed y mis yma.

Llongyfarchiadau a phob bendith i Josh a Harriet Gross, 51 Bro Emrys, ar enedigaeth eu mab, Henry Vernon, ar Fehefin 11eg. Edrychwn ymlaen at ei weld yn dod am dro yn ei goits i Ddolhelyg, ble roedd ei fam a'i dad yn byw cyn iddynt symud i'w cartref presennol.

**Ymddeoliad**
Dymuniadau gorau i Linda Lloyd, 81 Bro Emrys, sydd ar fin ymddeol o'i swydd fel Clerc ar wardiau Ysbyty Gwynedd, ar ôl cyfnod o 28 o flynyddoedd.

Linda, gobeithio y cei di a Keith flynyddoedd o iechyd da i fwynhau dy ymddeoliad a chwmni'r wyrion a wyresau bach.

## Capel Bethlehem

**Oedfaon** (am 2 o'r gloch)
Gorffennaf 23: Y Gweinidog.(Ei oedfa olaf ym Methlehem cyn ei ymddeoliad)
Gorffennaf 30: Parchedig Gwenda Richards.
Mis Awst: Dim oedfaon.
Medi 3: Parchedig Dewi T. Morris.
Medi 10: Oedfa.
Medi 17: Parchedig Dafydd Job.
Croeso cynnes i bawb.

**Colli Aelod**
Gwelsoch eisoes yn y golofn hon, gyfeiriad at farwolaeth un o'n haelodau, sef Idris Thomas o Ddolhelyg, yn ystod mis Mehefin. Wrth reswm, rydym ninnau ym Methlehem yn cydymdeimlo'n ddwys ag Arfon a Henry a'r teulu yn eu colled. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn iddynt am gyflwyno'r rhoddion er cof am Idris i gronfa Capel Bethlehem, sef swm anrhydeddus o £400. Diolch yn fawr iawn.

**Harmoniwm**
Dymunwn ddiolch i Caroline Evans, Tanymarian, am gyflwyno rhodd o harmoniwm i'r capel. Dros y 5 mlynedd diwethaf bu'r offeryn yn trigo yn hen gartref y Parchedig Edward Stephen, "Tanymarian" (a fu, fel sy'n hysbys i lawer, yn weinidog ar Bethlehem a Charmel Llanllechid rhwng 1856 a 1885). Isod, gweler lun o Mrs. Evans wrth yr harmoniwm ym Methlehem ar 15 Mehefin.



## Eglwys St Cross

**Gwasanaethau'r Sul** – Mae'r patrwm o gynnal gwasanaethau ar y Sul 1af a'r 3ydd Sul bob mis yn parhau, ac rydym yn ymuno â'r gynulleidfa yn eglwys St Tegai ar yr 2il a'r 4ydd Suliau.

Mis yma, mae 'na bump Sul, felly ar Orffennaf 30ain byddwn yn cyfarfod fel plwyf cyfan, aelodau'r chwech eglwys yn dod at eu gilydd yn Eglwys St Cedol, Pentir, am 10 o'r gloch – nodwch yr amser!

**Diolchgarwch** – Byddwn yn cynnal ein gwasanaeth Diolchgarwch ddydd Sul Medi 17eg am 11 o'r gloch.

**Bore Coffi, Ysgoldy** – Bydd y bore coffi nesaf ar Awst 1af am 10.30. Rydym yn falch o weld cymaint o ffrindiau, hen a newydd, unwaith eto ers i ni ail-ddechrau yn mis Mai. Diolch am eich cefnogaeth.

**Cydymdeimlad** – Estynnwn ein cydymdeimlad dwys at Arfon a Henry Thomas a'r plant – Geraint, Sophie, Jason, Ashley a Becca – yn eu tristwch o golli tad a thaid arbennig, Idris, o 16 Dôl Helyg, ei gartref am dros 40 mlynedd. Bu farw Idris yn dawel ar Fehefin 7fed yn Ysbyty Gwynedd lle cafodd o ofal am tua tri mis. Cynhaliwyd ei wasanaeth angladd yng Nghapel Bethlehem, Tal-y-bont, fore Mawrth, Mehefin 20fed, dan ofal y gweinidog, y Parchedig John Pritchard, gyda Barbara Jones ar yr organ. Traddodwyd y deyrnged gan chwaer-yng-nghyfraith Idris, sef y Barchedig Cath Williams, ac yna rhoddwyd Idris i orffwys ym mynwent St Cross efo'i annwyl wraig, Rose, a fu farw yn 2019.

**Ymddeoliad** – Dymuniadau gorau i'r Gweinidog, y Parchedig John Pritchard, sydd yn ymddeol ym mis Awst.

**Manylion Cyswllt** – Y Parch Ddr Gareth Lloyd yw ein Harweinydd Bro a Ficer Bro Ogwen, felly gofynnwn i chi gysylltu'n uniongyrchol ag ef ar 01248361521 neu gareth.lloyd@cantab.net ynglyn ag unrhyw fater yn ymwneud â'r eglwys. Neu fedrwch gysylltu â warden yr eglwys, Catrin Hobson, ar 07881802882.



**Adref o'r Ysbyty**
Braf oedd medru croesawu Rita Hughes i'r oedfa ar brynhawn Sul, 2 Gorffennaf, a hithau newydd dddod adref o Ysbyty Gwynedd ddau ddiwrnod ynghynt ar ôl treulio wythnos yno. Biti garw iddi golli bedydd Morgan oherwydd hynny!

**Bedyddio Morgan**
Brynhawn Sul, 25 Mehefin, cafwyd oedfa arbennig o hyfryd ym Methlehem, pan fedyddiwyd Morgan Kenny Kendrick, mab bach Wil a Laura, gan ein gweinidog, y Parchedig John Prithard. Mae Morgan yn ŵyr i Bethan a Mark, Lôn Ddŵr. Ei hen-daid a'i hen-nain yw Hughie a Rita Hughes, hefyd o Lôn Ddŵr, sydd yn aelodau ffyddlon yma.

**Llongyfarchiadau**
Mae Mitchel Jones, 80 Bro Emrys, yn dal i brofi llwyddiant mawr ym myd paffio. Mae o wedi ennill nifer o ornestau yn Wrecsam, Lerpwl a Warrington eleni ond, ym mis Mai, fe ennillodd Bencampwriaeth Cymru am yr eildro yng Nghaerdydd.

Llongyfarchiadau mawr iti, Mitchel. Mae cyrraedd safon mor uchel yn gamp fawr, ac yn wobr am yr holl amser a gwaith caled wyt ti'n rhoi i berffeithio dy grefft.  Pob llwyddiant iti yn y gornestau sydd o'th flaen.




Mae Kian Hughes, mab ieuengaf Jason, 5 Cae Gwigin, wedi ennill ei gap cyntaf dros ei wlad fel aelod o garfan peldroed dan ddeunaw Ysgolion Cymru. Fe gofiwch i'r hogiau gwblhau taith lwyddiannus iawn i'r Eidal yn y Gwanwyn. Maent hefyd wedi llwyddo i gipio Tarian y Ganrif am yr eildro yn olynnol.

Pleser pur oedd gwylio Kian, yng nghwmni ei Reolwr, Marc Lloyd Williams, yn cael ei gyfweld ar gyfer y rhaglen 'Heno'. Roedd ei Gymraeg yn raenus a'i osgo yn hyfryd . Gobeithio y cawn ei weld yn camu ar y cae dros Gymru ryw ddydd.





**Gymnasteg**
Bydd Avaya Isabella, 8 oed, o 33 Bro Emrys, wrth ei bodd yn gwneud gymnasteg. Mae hi'n aelod brwd o Glwb Bangor sy'n hyfforddi yn Llandygai.

Bu'r garfan yn cystadlu yng Nghaerdydd a mewn nifer o Ganolfannau eraill, ond tynnwyd y llun ar derfyn cystadleuaeth leol, lle ddaeth Avaya i'r brig. Dymunwn bob hwyl iddi i'r dyfodol.



**CHRIS GRIFFITHS CYF**
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

**SIOP OGWEN**
yn cynnig gwasanaeth
**CLIC A CHASGLU**
Llawer o Nwyddau Newydd gan Grefftwyr Newydd wedi cyrraedd y siop

Hefyd
Llu o gardiau cyfarch ar gyfer pob achlysur. Cysylltwch â'r siop ar yffôn **07394 905881**

neu E-bost siop@ogwen.org i drafod beth sydd ar gael ac i wneud trefniadau casglu a thalu

**CEFNOGWCH WASANAETH LLEOL**

**Marchnad Ogwen**
**Medi 9fed**
**Hydref 14eg**
**9.30am - 1pm**
**Neuadd Ogwen**
Bwydydd, Crefftau, Lleol
**www.marchnadogwen.co.uk**
**facebook instagram**

# YSGOL DYFFRYN OGWEN

**Cyflwyno Proffil Personol**





Ddydd Gwener, 23ain o Fehefin, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno Proffiliau Personol i ddisgyblion blwyddyn 11 ac 13 cyn gadael yr ysgol.  Mae'n draddodiad bellach i'r disgyblion wisgo'u dillad gorau ar gyfer y cyfarfod. Fel y gwelwch o'r lluniau roedd pawb yn hynod o smart!  Cafwyd eitemau cerddorol, Sandy gan Alex G ar y gitâr gan Luke Pipe ac Y Cymro, Rhys Meirion gan Cian Rhys.  Braf iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn o rieni a ffrindiau.  Cyflwynwyd anrhegion i'r athrawon dosbarth gan y disgyblion fel arwydd o'u gwerthfawrogiad.  Diolch i bawb a gefnogodd y seremoni.

## ADRAN DDAEARYDDIAETH

Ar y 14eg o Fehefin yr oedd criw TGAU Blwyddyn 10 Daearyddiaeth yn ffodus i dderbyn ymweliad gan weithwyr o'r Swyddfa Dywydd. Yn ystod y tymheredd tanbaid diweddar, nid oedd neb yn well gan yr ysgol i'w croesawu na Metelegwyr tywydd y wlad, nid yn unig i gael rhagolygon cyfoes ond i gael diolch iddynt am eu gwaith caled diffuant.

Yn ystod yr ymweliad cafodd y disgyblion ddeall mwy am yrfa gyffrous ac amrywiol yn y Met Office, sut maent yn mynd ati i fonitro ein tywydd gyda chymorth y lloerennau, hyn oll er mwyn ein hysbysu o ddydd i ddydd am y tywydd a diogelu ein gwlad rhag ymyrraeth o'r awyr. Yn ogystal llwyddodd y gweithwyr i atgyfnerthu gwybodaeth blwyddyn 10 o sut i fynd ati i adnabod newidiadau yn yr atmosffer a'r tywydd sy'n debygol o ddilyn.

Diolch am y cyflwyniad, cwis, cyfle i gwestiynu, cyngor a chadarnhad bod 'Ogwen Bank' yn leoliad arbennig i drochi yn ystod y tywydd cynnes.  Diolch am yr ymweliad diddorol.

**Gwobr Seren Blwyddyn 10**

Llongyfarchiadau enfawr i chwech o ddisgyblion Gwobr Seren Blwyddyn 10 Ysgol Dyffryn Ogwen am eu llwyddiant wedi iddynt gwblhau rhaglen genedlaethol 'The Scholars Programme' yn gynharach yn y flwyddyn.

Mae'r rhaglen Gwobr Seren Iau yn cynorthwyo ein myfyrwyr i ddatblygu sgiliau ar gyfer cam nesaf eu haddysg, gan gynnwys cyfathrebu ysgrifenedig, meddwl yn feirniadol, a gwybodaeth bynciol yn ogystal a hunan-effeithiolrwydd prifysgol. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnig y cyfle i fyfyrwyr ymgysylltu â phrofiadau a syniadau newydd, gan eu cynorthwyo i ddatblygu dealltwriaeth o'r llwybrau addysg a hyfforddiant sydd ar gael yn y dyfodol.

Eleni, cafodd disgyblion yr ysgol brofiad o ddysgu mewn arddull prifysgol trwy gyfres o diwtorialau ar-lein, a addysgwyd gan ymchwilydd PhD o Ysgol Wleidyddiaeth ac Astudiaethau Rhyngwladol Prifysgol Leeds.

Er mwyn efelychu amgylchedd dysgu prifysgol, cedwir y grwpiau tiwtorial yn fach gan roi ffocws ar addysgeg arddull prifysgol gan gynnwys ymchwil annibynnol, meddwl yn feirniadol, a chwestiynu lefel uwch.

Arweiniodd y tiwtorialau at chwe myfyriwr o Ysgol Dyffryn Ogwen yn cwblhau aseiniad heriol ar ffurf prifysgol, a farciwyd gan y tiwtor PhD yn defnyddio cynllun marcio safonol ar lefel gradd. Cafodd aseiniadau terfynol y myfyrwyr eu marcio a'u hasesu ar gyfer tri chymhwysedd penodol: cyfathrebu ysgrifenedig, gwybodaeth bynciol a meddwl beirniadol. Teitl y traethawd i'w gyflwyno oedd: "Does Electoral Politics Matter?"

Derbyniwyd tystysgrifau cyflawniad a marc aseiniad terfynol ar gyfer pob myfyriwr. Gyda phob un yn llwyddo i gyflawni i safon uchel gan basio i lefel gradd, braf iawn oedd cyhoeddi fod dau fyfyriwr wedi llwyddo i gyflwyno traethawd aseiniad a oedd yn llwyr haeddiannol o radd Dosbarth Cyntaf!! Llongyfarchiadau gwresog i Twm ac Evie am gyrraedd safon mor eithriadol o uchel ym Mlwyddyn 10! Edrychwn ymlaen i weld llwyddiant ein criw Seren yn parhau yn 2023-24.



Evie Roberts, Mari Roberts, Mali Hughes, Twm Rowlands, Gruff Jones, Jac Griffiths


# C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Timber & Builders' Merchants

Bethesda - Caernarfon - Mynytho - Llanrwst - Llangefni - Caergybi - Bae Cinmel

C.L. Jones yw eich masnachwyr adeiladu annibynnol lleol gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau adeiladu o safon gan gynnwys cyflenwadau plymio, addurno a thirlunio. Rydym yn agored i fasnachau a'r cyhoedd, ac yn cynnig danfoniad am ddim. Mae gennym arddangosfeydd ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar gael yn ein canghennau yn Llangefni a Llanrwst.




Bethesda 01248 600 045

bethesda@cljonesltd.co.uk



Swyddogion y Met Office gyda dau ddisgybl Rhys Herbert-Pritchard a Justin Williams

**Ymweliad Blwyddyn 6**

Bu disgyblion sy'n dechrau ym mlwyddyn 7 ym mis Medi yma am ddiwrnod. Cawsant gyfle i flasu ambell wers yn ogystal a gweithgareddau hwyliog a difyr. Edrychwn ymlaen at eu croesawu ym mis Medi!





**Taith Llundain**

Cafodd rhai o ddisgyblion blynyddoedd 8 a 9 wledd o brofiadau ar daith deuddydd i Lundain yn ddiweddar. Wedi codi gyda'r wawr cafwyd siwrnai gyfforddus iawn i lawr i'r brifddinas gyda'r 'air con' ar y bws yn cael ei lwyr werthfawrogi yn y gwres llethol!

Y National Science Museum oedd y lleoliad cyntaf iddynt ymweld gyda'r brwdfrydedd am wahanol agweddau yn amlwg; o feddyginiaeth i gerbydau i'r gofod ac yn enwedig yr ardal rhyngweithiol 'Who am I?' lle bu i'r disgyblion ddysgu llawer amdanynt eu hunain a'u rhinweddau. Chwedeg hufen iâ yn ddiweddarach aethant ymlaen i'r Natural History Museum gan syfrdanu ar fawredd yr adeilad. Braf iawn oedd gweld a phrofi awch y disgyblion i ddysgu ac archwilio'r gwahanol adrannau yma yn ogystal.

Wedi diwrnod o deithio, archwilio a dysgu roedd pob un yn barod am lond bol o fwyd yn Pizza Hut cyn mynd am y theatr i weld 'Back to the Future – the musical'. "Waw! Roedd hwnna'n brilliant!" oedd dim ond un o'r ymatebion, gyda symudiadau, wynebau a chymeradwyo y gweddill yn dystiolaeth bendant o'u mwynhad. Wedi noson o gwsg, brecwast llawn a haen drwchus o eli haul dros bawb, y London Eye oedd atyniad cyntaf yr ail ddiwrnod. A hithau'n



ddiwrnod clir, gwelwyd nifer fawr o adeiladau a lleoliadau adnabyddus eraill Llundain oddi ar yr olwyn. Mawr oedd diolch y disgyblion a'r staff pan ddaethant oddi arni a gweld Miss Williams yn dal dau focs yn llawn o 'ice lollies' ar eu cyfer.

Taith gerdded o amgylch ardal Westminster oedd nesaf gan ymweld a'r Cenotaph, Downing Street, Whitehall a Horse Guards Parade, cyn cael picnic yng nghysgod gwerthfawr coed St James' Park. Ymlaen am y Mall a Phalas Buckingham. Bu i ambell un gael cip o'r Tywysog William yn gyrru heibio i'r palas yn ei Range Rover a llu o gerbydau a beiciau modur yr heddlu o'i gwmpas ym mhob man.

Madame Tussauds oedd y lle olaf cyn cychwyn am adref – a phawb wrth eu bodd yn cael llun hefo enwogion o'u dewis. Roedd yr ardaloedd Star Wars a Marvel yn uchafbwyntiau amlwg – ac i ambell aelod o staff hefyd. Roedd gweld stondin popcorn yn yr ardal Marvel wrth fodd y disgyblion i'w paratoi i fynd i'r sinema Marvel Universe 4D. Wedi seddi yn ysgwyd, dŵr yn tasgu a gwynt y chwythu eu clustiau, ymlaen i'r siop am ambell i gofrodd o'r daith cyn cychwyn yn ôl am Fethesda.

Swper yn McDonalds ar y ffordd adref a'r arian oedd yn weddill gan y disgyblion yn llosgi yn eu pocedi, mwynhawyd llond bol o fwyd ac ambell i McFlurry hefyd. Braf iawn oedd gweld arwydd Bethesda wrth droi oddi ar yr A55 am oddeutu hanner awr wedi deg ar derfyn dau ddiwrnod yn llawn hwyl a phrofiadau newydd a bythgofiadwy. Mae cryn edrych ymlaen am daith flwyddyn nesaf yn barod gan i hanesion disgyblion eleni greu argraff a chynnwrf yn rhai o ddisgyblion blwyddyn 7! Diolch mawr i Ms Catrin Williams am drefnu.

**CRICED**

Batio a maesu gwych gan enethod bl7, 8, 9 a 10 yng nghlwb criced Bae Colwyn yn nhwrnament criced Gogledd Cymru. Gemau agos iawn a'r ddau dîm yn dod yn 3ydd. Mae'r Adran Iechyd a Lles yn falch iawn ohonynt.

Cofiwch fod ymarfer criced yng nghlwb Bethesda pob wythnos. Croeso cynnes yno i fechgyn a merched.





## Tregarth

**Olwen Hills** (Anti Olwen), 48 Bro Syr Ifor, Tregarth (600192)
**Angharad Williams**, 23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth (601544)
**Gwenda Davies**, Llanfairpwll (gwendaglyn@hotmail.com)

**Cydymdeimlad**
Ymddiheuriadau na roddwyd y newydd yma yn y Llais yn gynt. Cydymdeimlwn gyda Anwen ac Emlyn Thomas , Tre Ceiri, Tal y Cae, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli chwaer Anwen, sef Mairwen Thomas, Rhydyclafdy, fu farw ar Ebrill 26 yn ei chartref. Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd gyda chwaer Anwen, sef Margaret Bennett, Llanfairfechan , a arfera'i fyw yn Bwthyn Bodfeurig. Cofion atoch i gyd fel teulu Mairwen.

Daeth y newyddion trist am farwolaeth Rita Evans, 13 Erw Las, Bethesda, fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Fehefin 7. Cafodd Rita ei magu yn Nhregarth yn Bwthyn Bryn Cul a rhoddwyd hi i orffwys ym Mynwent Eglwys y Gelli. Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad gyda'r teulu gan gofio'n arbennig am ei chwaer, Eirwen Owen, Waen y Pandy, sydd ddim yn dda ar hyn o bryd. Mae wyres Rita, Iona Williams yn byw gyda'i phriod Guto a'r plant Eila ac Elgan yn y Fenallt, Tal y Cae.

Trist yw cofnodi marwolaeth Linda Wyn Jones, 28 Maes Ogwen, fu farw yn Ysbyty Gwynedd yn 72 oed ar Fehefin 19. Roedd Linda yn wraig gariadus i Eirwyn, yn fam i Nicola a Kerran ac yn Nain i Noah, Hope, Cadi a Iolo, ac yn chwaer I Carol, Eleri a Derek. Cydymdeimlwn gyda chi i gyd fel teulu yn eich hiraeth ar ol Linda.

**Eisteddfod yr Urdd Llanymddyfri**
Llongyfarchiadau i Esther Llugwy Parry, Lon y Wern ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, Llanymddyfri. Cipiodd yr ail wobr yng Nghystadleuaeth Yr Unawd Llinnynol i flynyddoedd 7,8 a 9. Ardderchog Esther a Llongyfarchiadau i'w brawd Judah fu'n cystadlu yn y gystadleuaeth offerynnol i flynyddoedd 4, 5 a 6.

Bu Gwenno Roberts, Fferm Dob yn cystadlu yn yr unawd telyn i flynyddoedd 10, 11 a 12. Llongyfarchiadau i tithau.

Pleser ydi llongyfarch Buddug Watcyn Roberts, Pen y Ffriddoedd, am ei champ yn cipio'r drydydd wobr yng nghystadleuaeth y Gadair, ym mhrifwyl Llanymddyfri. Edrychwn ymlaen i ddarllen dy waith ac i ddilyn dy yrfa Buddug.

**Gwellhad**
Anfonwn ein cofion at bawb o'r ardal sydd ddim yn teimlo'n rhy dda ar hyn o bryd. Rydym yn anfon ein cofion atoch gan obeithio y bydd yr iechyd yn gwella'n fuan.

Nid yw Margaret Pritchard, Ffordd Tanrhiw yn rhy dda ac ar hyn o bryd mae yn Ysbyty Gwynedd.

Anfonwn ein cofion at Brenda Wyn Jones, sydd yng Nghartref Gofal Plas y Garnedd ar hyn o bryd.

Cafodd John Davies, Tanysgrafell ddwy lawdriniaeth ar ei lygaid o fewn wythnosau i'w gilydd yn Ysbyty Gwynedd. Braf ydi clywed iddynt fod yn llwyddiant a chofion at Gwen fu'n gofalu mor ddiwyd amdano.

Mae'n rhaid ffarwelio efo Ann Hughes, 13 Ffordd Tanrhiw sydd wedi symud i fyw i Cae Garnedd, Bangor. Mae Ann yn fam i Caryn a Donna ac yn wraig i'r diweddar Tudur Môn. Bydd colled ar ei hôl.

**Y Ganolfan**
Mae'n siwr fod pobl Tregarth wedi sylwi ar arwyddion newydd y Ganolfan sy'n adlewyrchu ei gorffennol fel hen orsaf drên.




Breuddwyd Peter Roberts, Ffrwd Galed oedd hwn ond diolch i bwyllgor y Ganolfan a Dominig Kervegant am y gwaith o gwblhau y fenter.

Mae yna brysurdeb yn y ganolfan yn efo "Kick Boxing" ddwywaith yr wytyhnos, Band Batala, Hyfforddiant Cŵn, Ymarfer Côr Bach, partïon, a bydd y band Celt yn ymarfer pan fyd ganddynt gig.

Y Cylch Meithrin yw'r prif ddefnyddwyr o dydd Llun i ddydd Gwener ac mae dosbarth Ioga efo Fiona ar fore Mawrth a rhwng 11 a 12 o'r gloch mae Ioga cadair sydd yn canolbwyntio ar gryfhau'r cluniau a chadw balans rhag disgyn i rai hŷn.

Mae croeso i bawb i ymuno â'r gweithgareddau ac i sicrhau parhad y ganolfan i'r dyfodol.

Bydd yr Urdd yn cynnal diwrnod o chwaraeon i blant ar Awst 18 gan obeithio cynnal nosweithiau ar ôl yr haf.

## Capel Shiloh Newydd

Cofiwch am yr oedfaon yn Shiloh bob Nos Sul am 5 o'r gloch. Ni fydd gwasanaethau yn ystod Mis Awst ond byddant yn ailgychwyn ar Fedi 3.

Bydd y gwasanaethau yma yn cael eu harwain gan y canlynol:

Gorffennaf 23 – Nerys Griffiths, Caernarfon
Gorffennaf 30 – I'w drefnu
Medi 3 – Eric Jones, Bangor
Medi 10 – Dr Ian Morris, Pontardulais
Medi 17 – Eurfyn Davies, Llandegfan
Medi 24 – Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid

Cofiwch hefyd fod Drws Agored i bawb ddod am baned, sgwrs a chwmni yn Shiloh bob bore Gwener, rhwng 10 a 12 a bydd hyn y parhau drwy Mis Awst, felly ymunwch ar bob cyfri.

Braf iawn oedd cael croesawu un o gyn aelodau'r Ysgol Sul yn Shiloh i'r Drws Agored ym Mis Mehefin sef Gwydion Temple Morris. Arferai Gwydion a'i frawd Llyr a'u rhieni Sian a Martin Temple Morris fyw yn HenDyrpeg, Tregarth, ond wedi i Gwydion orffen yn Ysgol Tregarth aeth y teulu i fyw yn Halifax, Nova Scotia, Canada. Mae Gwydion yn gweithio ym myd y ffilmiau a Llyr yn ymladdwr tân mewn rhan arall o'r wlad yn y coedwigoedd mawr.


Gwydion yn ymweld o Ganada



# UN RHES, DAU DDEG DAU O DAI

RHAN 10

**5 a 6 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

Teulu **Evan Jones,** oedd yn byw yn rhif 5 Ogwen Terrace, Bethesda yn y flwyddyn 1871. Evan, ei wraig a saith o blant. Ganwyd Evan yn Llanallgo yn y flwyddyn 1829, ac roedd yn Deiliwr/ Dilledydd yn ôl y cyfrifiad. Ganwyd ei wraig Mary a'r holl blant ym Methesda. Roedd Mary yn 34 oed. Hugh E. Jones oedd y mab hynaf (ganwyd 1856), William E. (1857), Ann (1860), Catherine (1862), Jane (1867), Evan (1869), Mary (1870). Mae dwy forwyn yn cael eu henwi ar y cyfrifiad hefyd, sef Mary Jones, yn 15 oed wedi ei geni yn Amlwch, a Catherine Owen, yn 13 oed, ond nid oedd ei man geni hi wedi cael ei nodi yn y cyfrifiad. Roedd gan Evan un yn gweithio iddo hefyd, dyn o'r enw Edward Williams, 52 oed yn lletya gyda'r teulu, ac roedd yntau wedi ei eni yn Amlwch. Rhwng genedigaeth Mary a chyfrifiad 1881 ganwyd dau blentyn arall i Evan a Mary, sef Lewis ac Ellen ond bu Mary, gwraig Evan, farw ychydig ar ôl genedigaeth y nawfed plentyn yn 1876, ac mae cofnod o'i chladdedigaeth yn Eglwys Crist, Glanogwen ar yr ail o Hydref 1876, yn 40 oed. Roedd Hugh E. Jones, y mab hynaf, wedi symud o'r cartref, ac roedd y gweddill o'r plant y gyd gartref gyda'u tad. Roedd teulu Robert Roberts yn lletya yn 5 Ogwen Terrace hefyd. Roedd Robert o Ddolwyddelen, a'i wraig Mary a'r ddau blentyn, David Griffith ac Ellinor, i gyd wedi eu geni yng Nghaernarfon. Saer oedd Robert yn ôl y cyfrifiad.

Erbyn cyfrifiad 1891, roedd nifer o'r plant wedi gadael cartref. Dim ond Catherine, Evan, Lewis ac Ellen oedd yno gyda'u tad. Roedd Evan yn gweithio fel teiliwr a Lewis yn brentis yn y busnes, gyda Catherine yn gofalu am y cartref, mae'n debyg. Mae Catherine wedi priodi erbyn y flwyddyn 1901 gyda John H. Roberts, chwarelwr yn enedigol o Fethesda. Roedd Catherine yn ei disgrifio ei hun fel cogyddes yn y cyfrifiad. Roedd nai o'r enw Willie Jones, yn 11 oed, yno hefyd, ac wedi ei eni yn Kansas City, UDA.

Yn *The Welsh Coast Pioneer*, dyddiedig 14, Gorffennaf, 1910, cawn hysbysiad o briodas Owen Thomas, 5 Ogwen Terrace, Bethesda, a Elizabeth Jane Hughes, 27, Mulgrave-street, Liverpool, ond yng nghyfrifiad 1911 mae Elizabeth yn rhoi ei man geni fel Llanllechid. Felly, mae'n bosib ei bod hi'n gweini yn Lerpwl cyn iddynt briodi. Ar ôl priodi maent yn byw yn rhif 10 Coetmor Mount, Bethesda, gydag Owen yn gweithio yn y chwarel.



Mae teulu Evan Jones wedi lleihau erbyn cyfrifiad 1911, gyda'i fab Evan Jones, a anwyd yn 1869, a'i wraig Hannah a'u mab Evan Hugh yn byw yn y tŷ. Mae Evan yn nodi ei fywoliaeth fel teiliwr/ dilledydd yn y cyfrifiad. Roedd Gwilym, brawd Evan, yno hefyd, a Lizzie Ellen Thomas, nith 3 oed.

Yn 1884, mae Gwilym Jones, brawd Evan, wedi casglu arian ar gyfer Tysteb y Parch. M. D. Jones, Y Bala, (Michael D. Jones?). Y swm a gasglwyd oedd £3-5-11.

Roedd teulu Evan Jones wedi byw a gweithio fel teilwriaid/ dilledyddion yn 5 Ogwen Terrace am dros 40 o flynyddoedd.

**6 OGWEN TERRACE, BETHESDA**

Dilledydd a groser oedd yn byw yn 6 Ogwen Terrace, Bethesda yn 1871, sef **Thomas T. Jones,** a anwyd yn Llandygái yn 1829. Catherine T. oedd ei wraig, wedi ei geni yn Llanllechid yn y flwyddyn 1835. Roedd tri o blant gyda hwy, sef Thomas T. yn 6 oed ac efeilliaid, Jane a David Richard yn flwydd oed. Merch 20 oed o'r enw Catherine Jones oedd yn gweini iddynt. Roedd hi yn enedigol o Fangor. Cawn un arall yno ar noson y cyfrifiad, sef Elizabeth Grace Jones, ymwelydd, 15 oed, ac yn nodi mae gwniadwraig o Langeinwen, Sir Fôn oedd hi.

Mae teulu Thomas T. Jones yn dal i fyw yn rhif 6 Ogwen Terrace yn y flwyddyn 1881, ond bu Thomas T. Jones, y mab, farw yn 1874 yn wyth oed. Nid oes cofnod o'r teulu ar ôl y dyddiad yma, ac erbyn 1891, teulu Richard P. Roberts sydd yn byw yn y tŷ.

Meddyg oedd **Richard Pritchard Roberts,** ac fe'i ganwyd yn 1856 ym Mangor. Roedd ei wraig yn enedigol o Dreffynnon, Sir y Fflint, ac roedd eu mab Ffrancon yn ddwyflwydd oed ac wedi ei eni ym Methesda. Roedd dwy forwyn a gwas yn byw yn y tŷ hefyd, sef Jane Ann Hughes, yn 18 oed, a Susanah Hughes a Michael Doughan ill dau yn 14 oed. Roedd Susanah a Jane Ann yn enedigol o Lanberis, a Michael o Bradford.

Yn y flwyddyn 1894 cawn adroddiad am Sioe Amaethyddol, Bethesda, ac ynddo mae rhestr o enillwyr y gwahanol adrannau yn ymddangos, ac o dan y pennawd CEFFYLAU mae **Dr R. Pritchard Roberts,** 6 Ogwen Terrace, Bethesda, yn cael ei enwi am ddod yn ail gyda '*Cob under 14 hands high, to be shown under saddle.*' Yr enillydd oedd gŵr o'r enw Hugh Roberts, Tŷ'n y maes, Bethesda.

Hon oedd y drydedd sioe amaethyddol i'w chynnal yn y dyffryn, a'r Arglwydd Penrhyn oedd y Llywydd, gyda'r Col. The Hon. W. E. Sackville West, yn Is-lywydd. Diddorol yw nodi'r gwahanol adrannau oedd yn y sioe, '*Horses, Horse Jumping, Cattle, Sheep, Pigs, Dogs, Poultry, Vegetables, Farm Produce, Butter, Various eg. Honey, etc. Fruit, Flowers, Birds, SPECIAL PRIZES Tradesman's turnout horse & conveyance for light work. Best Cow (open to quarry workmen holding land). Garden collection, Best garden belonging to a Penrhyn quarry workman. Pair home knitted stockings; The best, cleanest and neatest "horse and cart by Lever Bros. Of Sunlight Soap Co.' Splitting and trimming slates.*'

Ar Ionawr14, 1898, yng Nghaernarfon, fe gynhaliwyd '*JUVENILE FANCY DRESS PARTY AT CAERNARVON' A Brilliant Function*' lle mae enillwyr yr holl adrannau yn cael eu henwi yn nhrefn yr wyddor, ac yn eu mysg mae Master Ffrancon Roberts, Ogwen Terrace, Bethesda, am ei wisg fel '*Page*'.

Yn rhifyn Mawrth 8fed 1898 o'r papur newydd *Gwalia*, mae **Dr Roberts,** Ogwen Terrace, yn cael ei enwi fel aelod o bwyllgor a godwyd i gyflwyno tysteb i'r Anrhydeddus Filwriad W. E. Sackville West ar ei ymddeoliad.

Nid oedd Dr Richard Pritchard Roberts gartref ar noson y cyfrifiad a gymerwyd ar Fawrth 31, 1901. Margaret Elizabeth, ei wraig sydd yn cael ei henwi yno gyda Ffrancon y mab, William Griffith Pritchard, lletywr yn enedigol o Landwrog, ac yntau yn feddyg fel Richard P. Roberts, a dwy forwyn, sef Margaret Jane Jones o Ffestiniog, yn 19 oed, ac Elizabeth Williams, 17 oed o Fethesda.

Fodd bynnag, o fewn tri mis i ddyddiad y cyfrifiad y flwyddyn honno cawn hanes marwolaeth Dr Richard Pritchard Roberts, yn y *North Wales Express*, Mehefin, 21, 1901, tud. 8. '*Roberts – June 17, at Ogwen Terrace, Bethesda, Mr Richard Pritchard Roberts, M.R.C.S., L.S.A., aged 45 years.*' (i'w barhau) Y mis nesaf – rhif 6 Rhes Ogwen.

# CHWILAIR



## SAFLEOEDD OES YR HAEARN

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | R | Y | N | C | R | O | E | S | A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C |
| M | B | V | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M |
| D | W | H | U | R | E | B | A | Z | M | X | V | A | D | D | N | A | P | A | U |
| Q | **B** | **E** | **T** | **W** | **S** | **Y** | **C** | **O** | **E** | **D** | L | U | C | S | O | F | R | P | Y |
| Q | Z | G | R | H | C | L | U | M | W | L | N | O | Y | O | R | I | A | S | Z |
| U | T | F | D | X | Y | U | P | W | A | R | H | C | Q | H | N | W | E | H | O |
| Y | T | E | E | N | G | E | O | N | M | H | E | P | T | T | C | W | B | B | C |
| U | U | R | N | J | P | L | L | I | T | M | I | V | V | D | C | B | Y | B | F |
| I | R | O | E | F | O | L | G | J | H | V | I | I | R | R | X | I | M | H | T |
| A | G | T | O | L | E | S | K | O | P | C | W | R | C | M | K | C | B | O | R |
| G | C | X | V | C | E | R | Y | H | S | N | L | T | M | R | E | F | Y | J | D |
| Y | Z | H | H | B | C | G | W | O | O | S | C | Y | R | A | I | X | N | I | L |
| D | X | I | J | J | M | B | D | R | W | T | E | X | F | M | D | X | K | F | U |
| N | D | P | C | Q | Y | O | A | D | I | L | F | E | R | Y | Z | Q | R | O | C |
| A | T | D | G | W | S | D | L | Z | E | E | B | E | A | J | G | K | J | C | L |
| L | N | L | R | V | R | O | G | J | P | B | W | P | G | S | O | Y | W | J | J |
| L | Q | U | L | E | F | B | O | D | U | A | N | E | D | E | R | N | W | S | V |
| T | X | E | B | U | G | H | S | L | Z | E | A | F | X | I | W | T | Z | D | H |
| K | V | A | A | G | B | N | K | A | D | S | I | K | O | G | D | H | B | S | I |
| U | R | O | X | A | G | X | R | A | E | E | K | K | D | A | N | T | O | G | W |

Yn y Chwilair mis yma mae SAFLEOEDD OES YR HAEARN I'W DARGANFOD YN Y LLEFYDD YMA, ODDIFEWN I'R HEN SIR CAERNARFON. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y Chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn 24 Awst . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Nifer fawr ohonoch wedi darganfod BEUNO yn y Chwilair mis diwethaf yn lle Dulyn, a dim ond tri wedi bod digon craff i sylwi fy mod wedi sillafu Dulyn yn anghywir, (Wedi pwyso'r botwm anghywir yw fy esgus).

**Dyma atebion Chwilair Mehefin:-** Crafnant; Dulyn; Elsi; Ffynnon Llugwy; Geirionydd; Glaslyn; Gwynant; Idwal; Llyn y Mynydd; Marchlyn; Ogwen; Peris.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr atebion cywir:-** Elizabeth Buckley, Tregarth; Alan Davies, Porthaethwy; Merfyn a Laura Jones, Halfway Bridge; Gwen Davies, Bethesda; Rosemary Williams, Tregarth; Doris Shaw, Bethesda; Eirwen Owen, Erw Las; Nia Wyn Bagnall, Llandygai.

**Enillydd Mehefin oedd:-** Alan Davies, 43 Penlon, Porthaethwy, Sir Fôn.

# Natur o'n Cwmpas

## Y Wiwer Lwyd – wedi hen ymgynefino

Wrth drafod tynged y wiwer goch yn y golofn fis diwethaf, rhaid oedd cyfeirio at y wiwer lwyd. Ei hymddangosiad hi a fu'n gyfrifol am y gostyngiad dramatig yn niferoedd gwiwerod coch yng ngwledydd Prydain. Meddiannwyd cynefinoedd y goch ganddi ac ymhen dim o dro ymledodd ei gafael. Y canlyniad fu disodli'r goch a pheryglu ei bodolaeth fel rhywogaeth.

**Sut ddigwyddodd y fath newid?**
Rhywogaeth sy'n gynhenid i Ogledd Ameria ydi'r wiwer lwyd, a chludwyd nifer ohonynt ar longau i Loegr yn yr 1820au, a hynny gan dirfeddianwyr a ddymunai eu gollwng yng nghoedydd eu stadau fel nodwedd newydd. Roedd gan stad Hanbury Park yn Swydd Gaer ran allweddol yn y drefn o'u rhyddhau yn 1876, ac o hynny ymlaen rhyddhawyd niferoedd yn rheolaidd hyd yr 1920au.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos mai Herbrand Russell, Dug Bedford, a fu'n bennaf gyfrifol am eu hymlediad. Roedd wedi cyflwyno nifer i goedydd Woburn Abbey yn yr 1880au, ac ar ôl iddynt luosogi'n helaeth, trefnodd i boblogaeth sylweddol gael ei gollwng yn Regents Park yn Llundain a Richmond Park yn Surrey. Credir ei fod hefyd wedi rhoi parau a grwpiau ohonynt i'w gyfeillion eu rhyddhau ar eu stadau eu hunain ledled Lloegr. Cynyddodd niferoedd y gwiwerod llwyd yn arw yn Lloegr o'r 1920au ymlaen, ac erbyn dechrau'r 1950au roeddynt wedi cyrraedd Sir Benfro a Sir Aberteifi. Ymhen dim o dro, gwelwyd rhai yma yn Eryri.

Roedd lledaeniad y wiwer lwyd yn cael effaith niweidiol iawn ar y wiwer goch, ac roedd sawl rheswm. Digon prin ydi cyflenwad bwyd cynefin y wiwer goch, a chan fod y wiwer lwyd yn fwy o ran maint ac yn gryfach, mae hi'n llawer mwy abl i wneud defnydd o'r adnoddau sydd ar gael. Mae hi hefyd yn magu'n gyflymach na'r goch. Bydd gwiwer lwyd yn magu dau nythaid bob blwyddyn, sef cyfanswm o 14 o rai bach ar gyfartaledd. Bydd y rhan fwyaf o famaliaid angen poblogaeth efo o leiaf 50 o unigolion er mwyn medru magu'n llwyddiannus a thyfu fel grŵp. Fodd bynnag, mi fedr y wiwer lwyd lwyddo efo llai na deg mewn grŵp.

Bygythiad arall i barhad y wiwer goch ydi brech gwiwerod. Mae'r wiwer lwyd yn cario'r frech heb fynd yn sâl, ond mae'n angheuol i'r wiwer goch.

Felly, o fewn yr un cynefin doedd gan y wiwer goch ddim siawns yn y gystadleuaeth rhyngddi a'r wiwer lwyd. Er bod mesurau ar waith i geisio rheoli niferoedd gwiwerod llwyd, mae'n amlwg bod y rhywogaeth yma i aros yn Nyffryn Ogwen. Wedi'r cyfan, mae hi wedi cael dros hanner can mlynedd i ymgynefino.

**Wyddech chi ..?**

- fod modd gwahaniaethu rhwng yr ysguthan a'r durtur dorchog heb eu gweld, a hynny drwy wrando ar eu cân. Mae 5 nodyn i gŵan ysguthan, sef 'cŵ-cŵ-rŵ, cŵ-cŵ', a 3 nodyn i gŵan turtur dorchog, sef 'cŵ-cŵŵ, cŵ'.
- mai gwyn ydi blodau'r ddraenen ddu a'r ddraenen wen fel ei gilydd, ond bydd blodau'r ddraenen ddu yn ymddangos yn gynnar, Mawrth-Ebrill, a blodau'r ddraenen wen Mai-Mehefin. Eirin tagu (o liw porffor â gwawr lwyd) ydi ffrwyth y ddraenen ddu, ac eirin moch (aeron coch) ydi ffrwyth y ddraenen wen.
- fod brithyll brown (brithyll gwyllt, cynhenid) 11 pwys wedi ei ddal ym Marwddwr Ogwen, sef y rhan o'r afon rhwng Pont Ceunant yn Nhy'n y Maes a Rhaeadr y Benglog (yn ôl cyfrol Hugh Derfel Hughes, *Hynafiaethau Llandygai a Llanllechid*, a gyhoeddwyd yn 1866). Does dim cofnod swyddogol, ond mae'n gwbl bosibl oherwydd daliwyd brithyll brown yr un pwysau mewn afon yn Antrim, Gogledd Iwerddon yn 2020.



*Mae'r golofn hon yn rhoi sylw i ryfeddodau a gwahanol agweddau ar fyd natur Dyffryn Ogwen a'r cyffiniau, gan fanteisio ar wybodaeth leol ac ar ffynonellau eraill. Rhowch wybod os ydych wedi gweld rhywbeth anarferol ym myd natur yn yr ardal. Anfonwch eich cyfraniadau at Ieuan Wyn, Talgarreg, Ffordd Carneddi, Bethesda LL57 3SG ieuanwyn01@gmail.com 01248 600297.*


CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math – plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)
Prisiau rhesymol
ORIAU AGOR
D. Mercher, Iau, Gwener 8.00 – 2.30
Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

DAFYDD CADWALADR
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
PERCHNOGION
A.LL. ac R.W. WILLIAMS
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
Ffôn: 600 723
E-bost: ffrydlas@btconnect.com

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar
@Llais_Ogwan

# Côr y Penrhyn

## gyda Derfel Roberts



### Codi arian at y Brifwyl

Ar nos Wener 16 Mehefin cynhaliodd y côr a Hogia'r Bonc noson yng Nghlwb Rygbi Bethesda i godi arian at yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir ym Moduan, ger Pwllheli ym Mis Awst. Arweinydd y noson oedd Neville Huws ac fe drefnodd y Prifardd Ieuan Wyn gystadleuaeth cwblhau limrigau ysgafn a hwyliog. Daniel o'r Felin ac Arwel Trombôn fu'n fuddugol gyda'u hymdrechion hwy.

Cyhoeddwn isod lythyr a dderbyniodd y côr gan bwyllgor apêl lleol yr Eisteddfod.

### Diolch

Gair sydyn i ddiolch i aelodau Côr y Penrhyn a Hogia'r Bonc am yr adloniant ardderchog nos Wener. O ganlyniad i elw'r noson, mae'r Pwyllgor Apêl bellach wedi cyrraedd – a phasio – ei darged ar gyfer ein hardal ni. Braf iawn ydi gallu croesi'r trothwy o ganlyniad i gyfraniadau gan ddau o brif grwpiau cerddorol yr ardal hefyd, a hynny gerbron cynulleidfa leol mewn lleoliad delfrydol yn achos y Clwb Rygbi.

Ar ran y Pwyllgor Apêl, diolch unwaith eto.

**Rhodri Evans**

### Crysau Newydd

Mae'r côr wedi prynu crysau glas llewys byr ar gyfer perfformio mewn lleoliadau anffurfiol ac yn yr awyr agored ar adegau pan mae'r tywydd yn gynnes. Mae'r ychwanegiad hwn i wisg swyddogol y côr wedi derbyn croeso gan yr aelodau eisoes.

### Tenor rhyngwladol yn rhoi cyngor

Faint o gorau o Gymru all ddweud eu bod wedi cael cwmni un arall o denoriaid mawr y byd i roi gwersi ar anadlu a lleisio i'w aelodau?

Ar 26 Mehefin daeth Salvador Carbò o Gatalonia atom yn Ysgol Llanllechid i roi o'i amser a'i wybodaeth i'r aelodau. Treuliodd amser gyda'r pedwar llais ar wahân yn hyfforddi sut i anadlu'n gywir a sut i greu tonyddiaeth yn iawn. Yn aml mae lleiswyr amatur yn canu'n rhy yddfol yn lle defnyddio'r ysgyfaint a'r stumog yn gywir. Cawsom ddysgu ganddo bwysigrwydd gwneud siâp ceg yn iawn a sut i yrru'r llais allan yn gywir.

Wedi hynny, ymunodd Salvador gyda rhai o'r aelodau yn 'Y Tarw' a chawsom ddatganiad byr allan o un o operâu mawr y byd ganddo'n ddifyfyr.



Salvador Carbò yn rhoi gwers i adran Bas 1 y côr yn Ysgol Llanllechid. Yn ei ymyl mae Ross Craigmile o Nant Peris sy newydd ymuno â'r côr. Mae Ross yn bianydd clasurol ei hun a fo oedd yn cyfieithu i Salvador.



Y tenor enwog Rhys Meirion yn mwynhau'r haul a'r awyrgylch yn Roc y Ddol

### Roc y Ddôl – 'Glastonbury Cymru'

Roedd y côr yn un o'r diddanwyr yn y digwyddiad uchod ar gae rygbi Dolddafydd ar 24 Mehefin. Ymhlith y perfformwyr eraill fu'n canu i'r gynulleidfa fawr ar ddiwrnod poeth o haf roedd Rhys Meirion, Elin fflur, Celt, Hogia'r Bonc a Dafydd Iwan.

Yma yn Nyffryn Ogwen gwelwyd awyrgylch a phrofiad tebyg i Glastonbury ar raddfa lai ac roedd brwdfrydedd y gynulleidfa yr un mor wresog â'r tywydd.

Diolch i aelodau a threfnyddion y clwb rygbi am waith caled a thrylwyr yn trefnu'r fath ddigwyddiad. Gobeithio y gwelir dogwyddiad tebyg eto y flwyddyn nesa'.


**Elwyn Jones & Co**

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106* · *Porthaethwy (01248) 719517* · *Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616* · *Pwllheli (01758) 703000*

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

**A.G.L.**
Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Sefydlwyd 1969

**m.hughes a'i fab**

**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
garribryn@aol.com
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio. Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant. Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.


Dilynwch Llais Ogwan ar **www.llaisogwan.com**

# Cymeriadau'r Côr

1. **Be' ydy dy enw llawn?** Philip Roberts
2. **Oed?** Chwe Deg pump oed
3. **Gwaith?** Gwas sifil gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau. (DWP)
4. **Lle wyt ti'n byw?** Ym Mangor ond dwi'n dod yn wreiddiol o St.Helen's ar Lannau Merswy.
5. **Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Cymdeithasol, Digynnwrf a Gweithgar
6. **Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?** Dwi'n aelod o'r côr ers pedair blynedd
7. **Pa lais wyt ti?** Tenor dau
8. **Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Roeddwn i wastad eisiau canu mewn côr meibion.
9. **Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** '*Gwinllan a roddwyd I'm gofal' (Caradog Williams /Saunders Lewis)*
10. **Pwy yw dy hoff gantorion?** Freddie Mercury ac Elton John
11. **Beth yw dy farn am ganu pop?** Rwy'n hoffi'r amrywiaeth o gerddoriaeth ac mae cerddoriaeth bop Brydeinig wedi bod yn ddylanwad byd-eang erioed.
12. **Oes gen ti atgof o ryw ymweliad efo'r côr?** Cerdded ar y cae yn Stadiwm y Mileniwm ar gyfer y perfformiad cyn y gêm rygbi ryngwladol, Cymru v Ariannin.
13. **Pa ddiddordebau sydd gen ti y tu allan i'r Côr?** Rydw i hefyd yn canu i gôr elusen canser ac yn mwynhau perfformio mathau gwahanol o ganeuon. Pleser mawr arall gen i ydy gwrando ar gerddoriaeth o bob arddull a dwi'n mwynhau caneuon fel *'Morning has Broken,'* yr emyn Saesneg adnabyddus a genir ar dôn Gaeleg a '*Bridge over Troubled Waters*' gan Simon a Garfunkel.
14. **Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Dwi'n teimlo'n freintiedig iawn i fod yn rhan o'r côr gwych hwn ac yn mwynhau'r cyfeillgarwch sydd mor arbennig oddi mewn iddo.



# Grantiau Elusen Ogwen yn gwella'r Dyffryn



Mae'n siwr gen i fod y mwyafrif ohonoch chi, ddarllenwyr Llais Ogwan, yn gyfarwydd â – neu o leiaf wedi clywed yr enw – Elusen Ogwen. Ond tybed faint a wyddoch am waith yr elusen hon, a'r hyn y maent wedi ei gefnogi'n lleol eleni?

Elusen sydd yn dosbarthu elw o gynlluniau ynni cymunedol Ynni Ogwen yw Elusen Ogwen. Nod yr elusen yw cefnogi cynlluniau ym maes cynaliadwyedd fydd yn gwella ansawdd bywyd trigolion, grwpiau a chymunedau Dyffryn Ogwen.

Mewn cyfres o dair erthygl yn Llais Ogwan, cawn glywed gan ystod eang o fentrau, sefydliadau a chwmnïau lleol sydd wedi derbyn nawdd gan Elusen Ogwen, a chofiwch fod modd i chithau wneud cais am arian hefyd. Dyddiad cau'r rownd nesaf yw 30 Medi, felly mae digon o amser i chi ddarllen y canllawiau ymgeisio, a llenwi'r ffurflen gais.



Dewch i ni glywed yn gyntaf gan un sy'n adnabyddus i drigolion yr ardal, William Sandison o Glwb Rygbi Bethesda.

"Rydan ni wedi derbyn tair grant gan Elusen Ogwen hyd yma," meddai Wil, sydd yn Gyfarwyddwr Rygbi yn y Clwb. '"Roedd y grant cyntaf er mwyn newid bylbiau'r clwb am rai LEDs sy'n defnyddio llai o ynni."

"Yr ail grant gawsom ni oedd arian i brynu 750 o goed ifanc i'w plannu yn y caeau sydd o gwmpas y clwb er mwyn gwella bioamrywiaeth a chreu coridorau bywyd gwyllt. Wedyn roedd y grant olaf i osod goleuadau solar yn y maes parcio. Mae'n dywyll yno yn y nos felly mae'n gallu bod yn beryg, yn enwedig yn y gaeaf, felly mae'r goleuadau solar yn ei gwneud hi'n saffach, ac yn amlwg dydyn nhw ddim yn defnyddio unrhyw egni."

Mae'r Clwb wrth gwrs yn adnabyddus yn lleol a thu hwnt am fod yn un carbon niwtral ac mae Elusen Ogwen yn falch o gyfrannu at amcanion gwyrdd y Clwb, lleoliad arbennig sy'n gymaint o hwb cymunedol yn yr ardal.

Un arall sy'n gweld gwerth cefnogaeth Elusen Ogwen yw Chris Wynne o Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

"I'r rhai ohonoch sydd heb fod, Gwarchodfa Natur yw Spinnies Aberogwen. Mae yno gyfres o byllau a choetiroedd a thair cuddfan adar," esbonia Chris. "Er bod grisiau i fyny at un o'r cuddfannau, mae'r ddau arall yn addas ar gyfer unrhyw un mewn cadair olwyn neu unrhyw un sy'n llai abl. Mae'r llwybrau a'r isadeiledd cysylltiedig angen gwaith cynnal a chadw o dro i dro a dyna pam y gwnaethom gais am grant gan Elusen Ogwen."

Rhoddwyd grant i'r Ymddiriedolaeth i roi grisiau newydd i un o'r cuddfannau, yn ogystal ag arian i brynu gorsafoedd bwydo adar a bocsys adar newydd i'w gosod ledled y warchodfa i ddenu mwy o adar.

"Roeddem yn falch iawn o dderbyn y grant gan ei bod yn bwysig i ni fod y cuddfannau yn parhau yn hygyrch i bawb," meddai Chris. "Mae'n wych cael noddwr lleol yn cefnogi gwaith lleol. Ac er mai effaith fach ar raddfa leol sydd yma, mae'n plethu i'r darlun mawr. Mae fel jig-so sy'n cynnwys sut yr ydym yn gofalu am ein gwarchodfa natur ond yn plethu gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru hefyd – mae am fod yn actif, mwynhau cefn gwlad a buddion iechyd hynny i gyd. Ac wrth gwrs, gwarchod bywyd gwyllt."


Byddwn yn dychwelyd ar ôl egwyl mis Awst gyda rhagor o hanes sefydliadau lleol sydd wedi manteisio ar grantiau Elusen Ogwen. Yn y cyfamser, am ragor o wybodaeth ewch i https://www.ogwen.cymru/cy/prosiectau-cymunedol/elusen-ogwen/ neu cysylltwch ar ebost elusenogwen@gmail.com i drefnu i gael sgwrs anffurfiol am eich cais.


**Londis Bethesda**

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos



# CROESAIR



**AR DRAWS**

7 Ymddengys droeon ym Moduan yn Awst eleni, a Myrddin yn arwain (6)
8 Poen a gwayw yn brathu (6)
9 Pinacl y diddosrwydd cysurus (4)
11 Creodd ei gorau glas efo llyfr na allai neb o unman ei guro (3)
12 Gŵr y march du ; rhowch eich arian iddo efallai (4)
15 Offeryn sy'n rhan ohonoch (5)
17 8 Ar Draws all eich gwneud yn drwm a thrwstan fel hyn (7)
19 Yn nes i'r M.A. os cael llawer darlith a gwers fel hyn (7)
21 Er yn wlyb, a allasai hon fod yn paratoi bwyd ger Bangor (5)
24 Nwy i oleuo (4)
27 Y ferch o 25 I Lawr (3)
28 Meddai Nantlais, "- –  – - law y mae f'amserau" *emyn* (2,2)
30 Anghymdeithasol, ac yn sicr yn cadw iddo'i hun (6)
31 Y llid o'r malu'n deilchion (6)

**I LAWR**

1 Reit llyfn, fel Eilio, Siabod neu'r Gest (4)
2 Lle mae pob cliw arall yn y pos hwn (4)
3 Tlws (5)
4 Heb fedru bod yn nes o gwbl (6)
5 Dirnad lled a gwybodaeth am rywbeth (4)
6 Unffordd o'r gwaelod (4)
9 Jim, yr un efo crystyn (3)
10 Ymddiddan a rhoi'r byd yn ei le (7)
13 Fel 24 Ar Draws, i oroesi (7)
14 Ymledu o heulwen braf i gymylau stormus (3)
16 Yn ôl neu ymlaen byddwch yno wrth fynd tua 6 I Lawr (3)
17 Etifedd yn anadlu tybed (3)
18 Cymdeithas foduro (3)
19 Syfrdan heb frad rywsut (3)
20 "- – – –  – - mam pob dyfais" *dihareb* (4,2)
22 Gweler 13 ac 17 I Lawr ac 14 Ar Draws (3)
23 Gŵyl efo hwyl a Gras cyn y Grawys (5)
25 Yr ardd gyntaf (4)
26 Dau'n gweiddi a chrio yn aflafar (4)
28 Heb fod ymhell (4)
29 Mae'n dal ynghanol yr adeilad (4)

**ATEBION CROESAIR MEHEFIN 2023**

**AR DRAWS** 1 Ceg, 3 Cer, 8 Tramwyo, 9 Anwes, 10 Neges, 11 Troedio, 12 Anllythrennog, 16 Lleiandy, 18 Smala, 20 Chwist, 21 Addunedu, 22 Ofn, 23 Uno

**I LAWR** 1 Cytuno, 2 Gwasg, 3 Crwydro, 4 Rasio, 5 Gwesty, 6 Pontarfynach, 7 Gaddo, 13 Neifion, 14 Nos Sul, 15 Papuro, 16 Lluchio, 17 NATO, 19 Anelu

Dyma enwau'r rhai lwyddodd i gwblhau'r croesair yn gywir: Sian Beidas, Elizabeth Buckley, Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Tregarth; Huw a Gwenno, Gerlan; Judith Hughes, Llangoed; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Iona Williams, Llanddulas; Wendy Eccles, M. A. Jones, Llanllechid; Stella Dafis, Rachub; Barbara Jones, Talybont; Dilys W. Griffith, Abergele; Rita Bullock, Doris Shaw, Gaynor Elis-Williams, Gwen Evans, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Gill King, Mynydd Llandygai; Medi Michael, Bangor; Dilys Parry, Jean Vaughan Jones, Rhiwlas

Mae'r clod a'r wobr y mis hwn yn mynd i Gill King, 4 Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai, Bangor LL57 4DX. Llongyfarchiadau i chi.

Atebion erbyn 18fed Awst 2023 **fan bellaf** *(ni ellir ystyried y rhai sy'n cyrraedd yn hwyrach)* i 'Croesair Gorffennaf', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD


Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

BARBWR OGWEN

Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant gan Alison
Rhaid gwneud apwyntiad.
Ffoniwch: 07796 038824




## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
ionarhiwen@hotmail.co.uk
(01248 355336)

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar John Evans, a fu farw yn 85 oed. Ty'n Llidiart yw enw'r cartref ond roedd pawb yn cyfeirio atynt fel pobl Mynydd Bach. Bu'r angladd yn y Gadeirlan ac i ddilyn yn yr Amlosgfa. Derbynwyd rhoddion er côf tuag at Ambiwlans Awyr a Clefyd Siwgr.
Yn yr un modd cydymdeimlwn â Mrs Marie Williams, Bro Rhiwen gynt, bu farw ei chwaer, Grace Jones o Lanfairfechan. Cofion atoch.

**Merched y Wawr**
Bu aelodau o'r gangen yn diweddu'r tymor yn y Clwb Golff Caernarfon. Cafwyd te bach blasus.

**Pêl-droed**
Llongyfarchiadau i Sammy, Bro Rhiwen am gael gwobr Chwaraewr y Flwyddyn i un o dimau ieuenctid Bangor. Roedd canmoliaeth i Steffan Allsop, Caeau Gleision am gapteinio ei dim peldroed yntau trwy'r flwyddyn. Tybed oes dyfodol disglair o'i flaen yn y maes yma?

**Manon Steffan Ros**
Derbyniodd Manon wobr y bobol, Tir Na Nog yn Eisteddfod yr Urdd, Sir Gaerfyrddin am ei nofel Powell. Cyfieithodd Llyfr Glas Nebo i'r Saesneg ac enillodd Wobr Carnegie.Hwn oedd y tro cyntaf i umrhyw gyfieithiad gael y wobr.

**Neuadd Bentref Rhiwlas**
Mae Bwrdd Rheoli Neuadd Bentref Rhiwlas yn dymuno diolch i Morgan Huw Evans am ei haelioni. Ers pedair blynedd mae Morgan wedi cefnogi a hyrwyddo datblygiad gwefan y neuadd, sef http://www.neuaddrhiwlas.cymru sydd nawr dan ofal y Pwyllgor Rheoli. Morgan fu'n gyfrifol am ariannu'r wefan ar ei gost ei hun ac felly mae'r Pwyllgor Rheoli eisiau dangos eu gwerthfawrogiad am ei waith a'i gefnogaeth.

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

## Clwb Rhiwen

Bu nifer dda o'r aelodau yn Llanberis a mynd ar y tren bach a chawsom gwmni Begw ac Abi hefyd cafwyd paned yn y caffi ar y diwedd a diolch i Ann a Lesley am drefnu






## Samariaid yn y 'Steddfod

Bellach, mae pawb yn edrych ymlaen at groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i Lŷn ac Eifionydd eleni. Un o'r mudiadau a fydd ar y maes drwy gydol yr wythnos yw'r Samariaid.

Mae'r Samariaid yn cynnig gwasanaeth gwrando ar gyfer y rhai sydd yn unig, yn wynebu cyfnodau anodd yn eu bywydau, neu'n ystyried diweddu eu bywydau, ac rydym ar gael 24 awr y dydd, gydol y flwyddyn. Drwy siarad a thrafod, y gobaith yw lleddfu'r teimladau o anobaith. Mae Llinell Gymraeg y Samariaid ar gael bob nos o 7-11y.h. – Rhadffôn 0808 164 0123.

Mae gwirfoddolwyr cangen Gogledd Orllewin Cymru yn paratoi i ymgartrefu ar y Maes, er mwyn lledaenu gwybodaeth am ein gwasanaethau gwrando a'n gwaith yn y Gymuned. Bydd cyfle hefyd i unrhyw un sydd yn teimlo ei fod angen sgwrs am unrhyw bryderon, wneud hynny ag un o'n gwrandawyr yn gyfrinachol yn ein cerbyd.

Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth am sut i wirfoddoli efo'r Samariaid. Mae angen mawr am wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn ein Cangen. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli, ffoniwch ni ar 01248 674984 i gael rhagor o wybodaeth, neu ewch i'n gwefan – www.samariaidbangor.cymru

Bydd rhan o Ardd Wrando'r Samariaid, a grewyd yn wreiddiol ar gyfer Sioe Flodau Chelsea eleni, wedi'i lleoli wrth ymyl ein cerbyd er mwyn creu cornel dlos, ddistaw a heddychlon yn ystod bwrlwm yr Eisteddfod. Bydd rhai o enwogion ein Cenedl yn galw heibio yn ystod yr wythnos i ddangos eu cefnogaeth i'r Llinell Gymraeg, gan gynnwys Yr Archdderwydd, Myrddin ap Dafydd, y mabolgampwr Robin McBryde a Liz Savile Roberts A.S. Bydd hefyd ein Ci Gwrando, Marple, yn ymuno â ni – cyn belled na fydd y tywydd yn rhy drofannol iddi hi ar y Maes.

Dewch i ymweld â ni! Bydd croeso cynnes a phaned i bawb.

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk (07443 047642)
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda (601902)

### Dathliadau Arbennig

Bu tri o drigolion yr ardal yn dathlu penblwyddi arbennig yn ystod mis Mehefin. Llongyfarchiadau mawr iddynt, sef Dilys Margaret Pritchard, Adwy'r Nant (19 Mehefin), Margaret A. Jones, Pant Glas (22 Mehefin) a Victor Roberts, Cilfodan (22 Mehefin).

Llongyfarchiadau i Gareth a Dilys Jones, Pencilan , Cefn y Bryn, Bethesda sydd newydd ddathlu Priodas Diemwnt ar Gorffennaf y 4ydd.

Anfonwn ein llongyfarchiadau mawr i dad a mam, sef Heddwyn a Helen o 4 Adwy'r Nant, ar achlysur eu priodas aur ar 7fed Gorffennaf.

Cariad mawr oddi wrth Nigel, Catrin, Caryl a'u hwyres Ella Lois

### Ysbyty

Cofion a gwellhad buan at y cyfeillion a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall eich bod yn gwella erbyn hyn, sef Frank Thomas, Llety'r Adar; Maureen Jones, Maes Coetmor; Helen Roberts, Ffordd Ffrydlas a Phillip Williams, Allt Pen y Bryn.

### Cydymdeimlo

Eto ym mis Mehefin bu sawl un mewn profedigaeth, ac 'rydym yn anfon ein cydymdeimlad atoch i gyd: Teulu'r diweddar John Charles Owen, gynt o Adwy'r Nant, a fu farw ar 30 Mai.

Barbara a Gwilym Owen a'r teulu, Rhos y Nant. Wedi colli chwaer yng nghyfraith ym Mhrestatyn ar 5 Mehefin, sef Sandra Ivy Roberts, priod annwyl Ffrancon Roberts. Cofion a chydymdeimlad atoch fel teulu ym Mhrestatyn.

Teulu'r ddiweddar Linda Wyn Jones, Tregarth, sef Carol, Abercaseg, Eleri a Derek wedi colli chwaer annwyl ar 19 Mehefin.

Ar 3 Mehefin, yn ei gartref yn Abercaseg, bu farw Ellis Thomas yn 76 mlwydd oed. Priod annwyl Carol, tad Vernon, Annette a Helen, ac yn daid a hen daid i Sarah Louise, Ceri Mai, Natalie Wyn, James Christian, Thomas Lewis, Sadie Lee a Fred Ellis, ac yn frawd a brawd yng nghyfraith. Cynhaliwyd ei angladd fore Mawrth, 20 Mehefin yn Amlosgfa Bangor gyda'r Canon Idris Thomas yn arwain y gwasanaeth. Cydymdeimlwn â chi fel teulu oll.

Yn Ysbyty Gwynedd ar 7 Mebefin, bu farw Rita Evans yn 94 mlwydd Oed. Priod y diweddar Gwilym, mam hoffus Bryn a'r diweddar Caryl, mam yng nghyfraith David a Susan, a nain garedig i Annwen, Iona, Llinos, Erin a Siân. Roedd hefyd yn hen nain annwyl. Bu'n athrawes yn Ysgol Penybryn hyd at ei hymddeoliad, ac yn uchel ei pharch gan bawb. Roedd yn aelod o Eglwys Crist Glanogwen. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Mawrth, 20 Mehefin yn Eglwys St. Mair, Gelli, Tregarth, ac yna ym mynwent yr eglwys honno. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Sara Roberts, ac fe gyflwynwyd teyrnged i'w fam gan Bryn. Cydymdeimlwn â chi fel teulu.

### Gair o Ddiolch

Dymuna Vic Roberts, Cilfodan, ddiolch o galon i'r teulu, cyfeillion, ac athrawon , staff a disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen am yr holl gardiau ac anrhegion ar achlysur dathlu ei benblwydd yn 80 mlwydd oed.

### Geni

Llongyfarchiadau i Gethin a Natalie, Garneddwen, ar enedigaeth eu mab, Olly Gethin yn ystod mis Mehefin. Llongyfarchiadau hefyd i nain a taid, Braichmelyn a nain a taid, Glasinfryn.

### Diolch

Dymuna teulu y diweddar Mrs Irene Hughes ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth, ac am y rhoddion caredig roddwyd er côf annwyl am Irene tuag at Nyrsys Cymunedol Bethesda. Diolch arbennig i'r Parchedig Nerys Griffiths ac i Mr Gareth Williams am eu gwasanaeth gofalus.

Dymuna Carol a'r plant, 33 Abercaseg, ddiolch o galon i bawb am bob gair o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu profedigaeth drist o golli Ellis. Diolch am yr holl gardiau a'r ymweliadau a gafwyd. Hefyd, maent yn ddiolchgar am y rhoddion er cof amdano tuag at Ymchwil Cancr. Diolch yn fawr i'r ymgymerwr, Stephen Jones am ei drefniadau trylwyr.

## Yr Eglwys Unedig

### Oedfaon

Cynhaliwyd gwasanaethau bendithiol iawn yn ystod y mis diwethaf. Cawsom gyfle i fynychu Capel Y Cysegr, Bethel, fel aelodau o Ofalaeth Bro Seiont Ogwen, a chael Cymun o dan arweiniad y Parchedig Nerys Griffith. Diolchwn hefyd i'r Parchedig Mererid Mair, y Parchedig Robert Capon, y Parchedig Nerys Griffiths, Ceri Dart, a Carol Dewi Jones am oedfaon gwerthfawr dros ben.

### Y Gymdeithas

Fore Mercher, Mehefin 7fed – ar ddiwrnod hyfryd o braf – aeth aelodau'r Gymdeithas ar daith i Sir Fôn. Ymwelwyd yn gyntaf ag Eglwys Sant Pedr yn Niwbwrch. Mae'r Eglwys ar safle godidog, gyda golygfeydd dros y Fenai. Mr Norman Evans, hanesydd lleol, fu'n adrodd hanes yr Eglwys, a dangosodd greiriau hynafol iawn, ynghyd â ffenestri lliw rhyfeddol o hardd.

Yna, aethpwyd ymlaen i'r 'Anchorage' ym Mae Trearddur, lle y cafwyd cinio blasus. Dilynwyd hyn gan wibdaith drwy Caergybi ac ar hyd y porthladd, cyn cychwyn am Oriel Môn. Yno, bu cyfle i grwydro o gwmpas yr arddangosfeydd, a chael paned a chacen cyn troi am adref.

Diolch yn fawr iawn i'r rhai a fu'n gyfrifol am y trefniadau!

### Gweithgaredd

Hyfryd oedd cael croesawu'r grŵp poblogaidd 'Pedair' i'r Capel. Mwynhawyd noson o safon uchel, a diolch i Dilwyn Llwyd am wneud y trefniadau ar ran Neuadd Ogwen.



### Cofion

Anfonwn ein cofion cywiraf at bob un sydd yn methu ymuno â ni yng ngweithgareddau'r Capel, gan obeithio bod y tywydd braf wedi bod yn gyfrwng i godi'r galon.

### Cyhoeddiadau'r Sul

Gorffennaf 16: Y Gweinidog (10)
Gorffennaf 23: I'w drefnu (10)
Gorffennaf 30: Y Parchedig Iwan Ll. Jones (10) Y Parchedig Hugh Pritchard (5)

**DALIER SYLW: Ni fydd gwasanaethau yn ystod mis Awst**

Medi 3: Y Gweinidog (10) Undebol yng Nghaeathro, gyda Chymun, (2.p.m.)
Medi 10: Y Parchedig Geraint Roberts (5)
Medi 17: I'w drefnu (10)
Medi 24: Y Gweinidog (10)

Cofiwch bod yr oedfaon hyn, ac eithrio'r oedfa yng Nghaeathro, i gyd ar gael dros y ffôn – mae croeso i chwi i ymuno â ni!

**Gorffwysfan**
Cynhaliwyd cyfarfod o'r pwyllgor ar fore Llun, 26 Mehefin gyda Rhiannon Efans yn y gadair. Yn bresennol 'roedd Dilwyn Owen, Edric Jones, O.J.Evans, Ann Fôn Williams, Sandra Howell a Joe Hughes. Cafwyd ymddiheuriadau gan Eirwen Owen a Dennis Dart.

Croesawyd pawb gan y cadeirydd a dymunodd wellhad buan i'r aelodau oedd yn sâl, sef Christine Jones, Val Amos, Joseph Dignam, Brenda Williams, Shirley Evans, Sulwen Lloyd, Maureen Jones, Mary Owen ac Ann Williams. Cydymdeimlodd y cadeirydd â'r ddau deulu a fu mewn profedigaeth, wedi marwolaweth dau o'n haelodau, sef Margaret Bryn, Rachub a Glenys Rowlands, Adwy'r Nant. Safodd yr aelodau ar eu traed fel arwydd o'u parch a'u cydymdeimlad.

Darllenwyd cofnodion pwyllgorau 9 Mai 2022 a 23 Mawrth 2023, ond nid oedd adroddiad llawn ar gael gan y trysorydd gan nad oedd y flwyddyn ariannol yn dod i ben tan 30 Mehefin.

*Rhestr Gwibdeithiau 2023:* Cheshire Oaks, 26 Ebrill; Skipton, 28 Mehefin; Betws y Coed/Llangollen, 13Medi; Marchnad Bury, 29 Tachwedd.
*Cinio Nadolig 2023:* Wedi trafodaeth penderfynwyd holi am brisiau cinio Nadolig gan bedwar tŷ bwyta.
*Ethol Swyddogion am y flwyddyn 2023 – 2024:* Cadeirydd – Rhiannon Efans; Is-Gadeirydd – Edric Jones; Trysorydd – Helen Williams; Ysgrifennydd – Joe Hughes.
*Bore Coffi 2023:* I'w gynnal ddiwedd Medi.
Diolchwyd i bawb am eu presenoldeb gan y cadeirydd.
*Gwibdaith Skipton:* Aeth 40 o aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Skipton ar ddydd Mercher, 28 Mehefin. Cafwyd diwrnod da a phawb wedi mwynhau.Cofiwch am y wibdaith nesaf ar 13 Medi i Betws y Coed a Llangollen. Enwau i Joe os gwelwch yn dda!


**JOHN ROBERTS**



Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr

**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**


## Cau y Drws ar bennod o hanes Bethesda

Mae Christine a Gwyn wedi penderfynu ymddeol ac felly wedi cau y dafarn. Bydd hi'n dipyn o golled i'r pentref gan gofio bod y teulu wedi bod yn y Douglas Arms ers dros gant o flynyddoedd.

Dymuna Christine a Gwyn ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.




## Eglwys Crist, Glanogwen

Yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus diweddar am ddyfodol Eglwys Crist, Glanogwen ym Methesda, daeth sawl peth i'r amlwg.

Mae'r gefnogaeth i'r eglwys arbennig hon yn parhau'n gryf, ond mae angen i ni fel aelodau i newid ychydig er mwyn darparu gwasanaeth sy'n fwy addas yn y byd sydd ohoni. Mae bywyd yn brysur, mae oblygiadau gwaith, a bywyd teuluol ayb yn golygu bod dod i'r eglwys ar fore Sul ddim o hyd yn ymarferol.

Ond, yng nghanol yr holl brysurdeb, mae'r dyhead am dawelwch, llonyddwch, a chael derbyn Cymun Bendigaid yn rhywbeth sy'n cael ei deimlo yn ddwfn. Roedd gweld colli'r eglwys yn rhywbeth gafodd ei fynegi gan fwy nag un llais, gan nodi tristwch bod o ddim yn bosib ar hyn o bryd.

Soniwyd hefyd am yr angen am rywbeth i gofio'r holl bobl a gollwyd yn ystod y Cyfnod Clo, ac na chafodd angladd teilwng oherwydd y rheolau ar y pryd. Mae sawl teulu wedi mynd trwy'r profiad dirdynnol o gynnal angladd heb aelodau o'r teulu na ffrindiau i'w cefnogi a thalu teyrnged lawn. Diolch i'r rhai a rhannodd eu teimladau mor agored a gonest.

Fel eglwys rydym eisiau ymateb i'r anghenion amrywiol yma a chynnig gwasanaeth sy'n adlewyrchu ein ffydd ym Mab y Saer a ddaeth i gyhoeddi'r Deyrnas a rhannu Cariad Duw gyda'r bobl o'i gwmpas. Mae Ffydd, Gobaith a Chariad yn arwyddion o bresenoldeb Crist yng nghalon ein cymuned ac rydym yn edrych ymlaen at ddarganfod y ffordd ymlaen i amlygu hyn am flynyddoedd hir eto.

Allan o'r sgwrs bwysig hon, felly, mae nifer o benderfyniadau wedi codi:

1) Unwaith y mis, fydd y gwasanaeth ar y Sul yn symud i'r prynhawn, er mwyn galluogi teuluoedd i fynychu

2) Unwaith yr wythnos fydd yna wasanaeth tawel, byr, gyda'r hwyr, gan ddefnyddio cerddoriaeth, myfyrdodau ayb

3) Bydd digwyddiadau ar gyfer plant yn cael eu cynnal yn rheolaidd

4) Bydd ymchwil yn cael ei chynnal i ddarganfod os oes yna angen/cefnogaeth am grŵp 'Rhiant & Plentyn', fel 'Arch Noa'

5) Bydd gwasanaeth coffa ar gyfer holl deuluoedd y fro a gollodd anwyliaid dros y Cyfnod Clo yn cael ei drefnu yn mis Medi- Dydd Iau 14eg o Fedi, amser i'w cadarnhau. Gwasanaeth ar y cyd gyda'r enwadau eraill ym Methesda, ac yn agored i gyfraniadau gan gerddorion a beirdd lleol er mwyn creu digwyddiad addas a chofiadwy.

Am fwy o fanylion am y newidiadau yma, cadwch lygad allan ar ein tudalen Facebook (Eglwysi Bro Ogwen) neu ar lein ac ar bosteri.

Mewn Fydd, Gobaith & Chariad
Sara, Caplan Bro.
Poster Gwasanaeth Coffa

**Clwb Cant**
Ma blwyddyn y Clwb Cant yn dod i ben ddiwedd mis Medi. Diolch am y gefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, a gobeithiwn yn fawr bod yr aelodau am ddal ati dros y flwyddyn i ddod – mae'r incwm yn gyfraniad syweddol i'r Apêl i atgyweirio'r adeilad.

Mae'n bwysig bod y taliadau aelodaeth i gyd i mewn cyn diwedd mis Medi er mwyn cael trefn ar y gwaith papur.  Y tal yw £12 am y flwyddyn, gan ei bod yn amhosib casglu £1 y mis) a mae'n bosib talu arian parod i Barbara, neu trwy law swyddogion yr eglwys, trwy siec yn daladwy i Cronfa Apel Eglwys Glanogwen, neu bydd Llinos yn cysylltu a'r rhai sydd wedi talu dros y we ar gyfer eu haelodaeth hwy.

Diolch i galon i Llinos am ei holl waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn trefnu'r Clwb Cant, ond gan ei bod yn ein gadael am y wlad bell cyn bo hir, bydd angen i rhywun arall gymeryd y gwaith o hyn ymlaen, felly beth amdani – wyddoch chi am rhywun fyddai'n fodlon?

Enillwyr mis Mehefin:
£40 – rhif 104 – Mrs Jean Cross
£20 – 150 – Ms Angela Roberts
£15 – 187 – Mrs Beryl Williams
Llongyfarchiadau i'r dair!

# YSGOL TREGARTH

**Ffarwelio**

Bydd diwedd y flwyddyn ysgol yma yn un rhyfedd iawn i ni yma yn Ysgol Tregarth wrth i ni ffarwelio gyda'n pennaeth, Mrs Lliwen Jones, wedi cyfnod llwyddiannus a hapus iawn. Diolch o waelod calon i Mrs Jones am ei holl waith caled, ymroddiad a chyfeillgarwch dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ysgol wedi bod mewn dwylo diogel iawn wrth iddi ein harwain ac rydym fel staff a disgyblion yn mynd i weld ei cholli yn fawr. Dymunwn yn dda iddi yn ei swydd newydd ac yn y dyfodol. Cofiwch beidio bod yn ddiarth Mrs Jones, bydd croeso cynnes i chi unrhyw bryd yma yn Nhregarth.

Rydym hefyd yn ffarwelio gyda Miss Lowri Bohana, athrawes CA2, sydd wedi bod hefo ni am ddwy flynedd. Mae wedi bod yn hyfryd cael cwmni Miss Bohana yn yr ysgol ac mae'r disgyblion wedi elwa yn fawr o fod yn ei dosbarth gan dderbyn profiadau bendigedig. Dymunwn yn dda i Miss Bohana yn ei swydd newydd a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

**Llongyfarchiadau**

Hoffem fel ysgol longyfarch Mrs Caryl Evans a'i gwr ar enedigaeth Elis Jac. Mae pawb yn falch iawn o glywed y newyddion ei fod wedi cyrraedd yn saff ac yn edrych ymlaen i'w gyfarfod. Mwynhewch yr amser arbennig yma gyda Elis Jac.

**Llwyddiannau pêl-droed**

Llongyfarchiadau mawr i Finley a Olly o ddosbarth Ffrydlas a gafodd lwyddiant arbennig yn ystod cyflwyniad tîm pêl-droed Deiniolen yn ddiweddar. Cafodd Finley ei



enwi yn 'Chwaraewr y Rheolwr' a Olly yn 'Chwaraewr y Chwaraewyr'. Anhygoel hogia'! Yr holl chwarae pêl-droed amser chwarae wedi bod yn help mawr dwi'n siwr!

**Gwersi byw NFU Cymru**

Profiad gwych roedd cael ymuno hefo ffermwyr Cymraeg ar wers byw NFU Cymru. Gan mai ffermio yw ein thema y tro hyn, roedd yn ffordd wych i ddathlu wythnos ffermio Cymru. Cawsom hwyl yn dysgu am cylch bywyd, cneifio, gwaith cŵn defaid a sut i ofalu am gŵn a oen bach. Roedd modd gofyn cwestiynau a cafwyd sawl cwestiwn difyr gan blant CA2.

**Sesiwn rygbi hefo Huw Davies**

Cafwyd y braint o gael Huw Davies a Osian Jones sef swyddog hwb rygbi Ysgol Dyffryn Ogwen draw dydd Llun, 26ed o Fehefin. Cafodd plant CA2 cyfle i ddatblygu eu sgiliau rygbi, ymarfer hefo'r ddau, a gofyn cwestiynau i Huw ar y diwedd. Profiad ysbrydoledig iawn i'r disgyblion o allu uniaethu gyda phrofiadau Huw, ac efallai y byddent eu hunain yn dilyn ei lwybr llwyddiannus un dydd.



**Criced**

Cynhaliwyd ŵyl criced Bethesda draw yn y clwb criced yn ystod mis Mehefin. Bu dipyn o ddiddordeb gan blant ysgol Tregarth i gymryd rhan yn yr ŵyl. Llwyddwyd i gael tri tîm i gymryd rhan sy'n golygu bu bron i 30 o blant yn cynrychioli'r ysgol. Cyrhaeddodd tîm 2 y rownd cyn derfynol a tîm 1 yn colli yn y rownd derfynol. Aeth tîm 1 ymlaen i rownd terfynol ysgolion Eryri draw ym Mhorthaethwy lle



gorffennwyd yn y drydydd safle. Pawb wedi cynrychioli'r ysgol yn wych. Dyma lun o tîm un Tregarth draw yn y rownd terfynol draw ym Mhorthaethwy.





**TEITHIAU CERDDED**

Hoffwn ddiolch i dîm Anelu'n Uchel am dywys CA2 ar deithiau cerdded arbennig. Cafodd plant 3-4 dywydd bendigedig i gerdded o amgylch Rhyd Ddu, ac aeth blwyddyn 5 a 6 am daith i fyny Moel Eilio o Lanberis. Diwrnodau braf, heriol, ond andros o hwyl. Roedd y plant yn falch iawn o'i hunain. Diolch o galon i'r hyfforddwr am gadw ni'n ddiogel a rhoi profiadau bythgofiadwy i'r disgyblion.



**EISTEDDFOD YR URDD**

Llongyfarchiadau mawr iawn i Judah Parry, blwyddyn 6, a ddaeth yn drydydd ar yr unawd gitâr yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar. Rydym fel ysgol yn falch iawn o dy lwyddiant Judah ac wedi mwynhau cael perfformiad o'r darnau yn y gwasanaeth gwobrwyo yn ddiweddar.

**Diwrnod trosglwyddo**
Roedd dydd Gwener, Mehefin 23ain yn ddiwrnod cyffrous pan gafodd pawb gyfle i gael blas ar eu dosbarth newydd ym mis Medi a chael treulio'r diwrnod gyda'u hathrawon newydd. Roedd yn ddiwrnod arbennig i'r dosbarth meithrin newydd gan eu bod wedi cael treulio'r prynhawn gyda ni. Roedd hefyd yn gyfle i'r meithrin presennol gael treulio y diwrnod cyfan yma gyda ni ac roedd pawb wedi mwynhau, yn enwedig y cinio blasus!

**Gweithdy Samba**
Diolch i gwmni Codi'r Tô am y gwahoddiad i fynychu gweithdy samba draw yn ysgol Dyffryn Ogwen. Cafodd y plant gyfle i chwarae amryw o offerynnau gyda'i gilydd gan ddilyn cyfarwyddiadau aelodau 'Codi'r To'.



# Gair neu ddau
**John Pritchard**

## Llaeth a maeth y Gair

Phrynais i erioed gopi o bapur newydd *The National* arbennig hwn. Nid y papur Cymreig byrhoedlog a ddaeth i ben flwyddyn yn ôl lai na deunaw mis ers ei sefydlu. Mi brynais sawl copi o hwnnw. Ac nid y papur o'r enw a gyhoeddir yn yr Alban chwaith. Mi brynais gopi neu ddau o hwnnw pan gawson ni wyliau yn yr Alban rai blynyddoedd yn ôl. Roedd hynny yn nyddiau cynnar y papur hwnnw mae'n rhaid gan mai yn 2014 y'i sefydlwyd. Na, sôn am *The National* a gyhoeddir ym Mhapua Guinea Newydd yr ydw i. Fûm i erioed yn agos at y wlad honno, ac yn amlwg felly welais i erioed gopi ohono.

Yn ôl gwefan y papur ei hun, *The National* yw'r papur newydd sy'n gwerthu orau yn y wlad honno. Wyddwn i mo hynny nes i *Google* f'arwain at y papur hwn heno, ac yn benodol at un peth a ddywedodd y papur hwn un waith. Dyna wedi'r cwbl y math o beth y mae *Google* yn tueddu i'w wneud. A'r un peth hwnnw? Y ffaith (yn ôl *The National* beth bynnag) mai'r Beibl Saesneg ydi'r 'llyfr sy'n gwerthu orau ar draws y byd' ond mai'r Beibl Saesneg hefyd ydi'r 'llyfr a ddarllenir leiaf'. Wn i ddim pa mor ddibynadwy ydi'r papur newydd hwn yn gyffredinol, ond mae'n amlwg yn anghywir yma. Ond mwy na thebyg mai ail adrodd rhywbeth a ddywed aml i wefan a phapur newydd a wna.

Nid cwbl anghywir chwaith gan mai'r Beibl Saesneg ydi'r llyfr sy'n gwerthu orau Mae ystadegau'n dangos hynny. Yr hyn na all ystadegau ei ddangos wrth gwrs ydi faint o ddarllen sydd ar y llyfrau a werthir. Ond yn amlwg, cwbl anghywir ydi dweud mai'r Beibl ydi'r llyfr a ddarllenir leiaf, yn Saesneg neu yn unrhyw iaith arall. Does dim rhaid wrth ystadegau manwl i wybod hynny. Mae yna filoedd lawer o lyfrau'n hel llwch mewn llyfrgelloedd a chartrefi heb i neb eu hagor, ond mae yna filiynau o bobl yn darllen y Beibl yn gyson bob wythnos a phob dydd. Na, fedrwch chi ddim credu pob dim a ddywed y *National*!

Ond os nad yn ffeithiol gywir, mae'r hyn a ddywed y papur yn ddigon heriol. Faint, tybed, o ddarllen y Beibl a wneir yng Nghymru heddiw, ymhlith pobl sy'n mynychu oedfaon a phobl nad ydynt yn gwneud hynny? Does neb a ŵyr; ond mi fentraf ddweud bod o hyd fwy o ddarllen ar y llyfr hwn nag y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn ei ddychmygu. A synnwn i ddim nad oes ambell un di-gred hyd yn oed yn darllen mwy arno na llawer i Gristion ffyddlon. Rhyfedd o beth ydi hynny, wrth gwrs, gan mai'r llyfr hwn sydd i fod yn gynhaliaeth ac yn faeth i'r Cristion. Ynddo a thrwyddo y mae Duw'n siarad â ni gan ein goleuo a'n cysuro a'n hanesmwytho a'n herio.

Meddai Iesu Grist ei hun: 'Gwyn eu byd y rhai sy'n clywed gair Duw ac yn ei gadw' (Luc 11:28). Ac meddai Pedr wrth ei gyd-gristnogion: 'Fel rhai bychain newydd-eni, chwenychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynyddoch trwyddo' (1 Pedr 2:2).



**CASGLU SBWRIEL**
Yn ystod y mis, bu dosbarth Ffrydlas yn aelodau gwerthfawr o gymuned Tregarth wrth iddynt fynd o gwmpas y pentref yn casglu sbwriel am brynhawn. Braf oedd gweld y plant yn cymryd parch yn eu hardal leol wrth ofalu a thacluso y palmentydd, y parc ac Lon Las Ogwen. Diolch yn fawr iawn i aelodau o GwyrddNi a Phartneriaeth Ogwen sef Chris, Anna a Menna am ddod gyda ni ar ein taith ac am yr offer. Roedd pawb wedi mwynhau y profiad.


STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# YSGOL BODFEURIG





**FFERMIO**

Y tymor yma mae pawb yn yr ysgol wedi bod yn trafod y cwestiwn ‘ydi ffermio yn bwysig?’. I ddatblygu eu dealltwriaeth o ffermio aeth dosbarth Idwal ar ymweliad i Fferm y Foel. Cafodd pawb ddiwrnod arbennig yn gweld nifer o anifeiliaid gwahanol yn ogystal a chael dro mewn tractor a trelar. Mae’r ymweliad yn siwr o ysbrydoli llawer o waith diddorol yn ystod gweddill y tymor!

I ysbrydoli dosbarth Ogwen toedd ddim rhaid teithio mor bell. Aeth pawb i lawr y lon i fferm Moelyci i ddysgu mwy am dyfu bwyd ac am gynnyrch lleol. Diolch o galon i Paul a Sarah am ein tywys o gwnpas. Roedd yn sbardun i ddatblygu gerddi’r ysgol ac i fynd ati i lunio bwydlen gyda cynnyrch lleol.

**Diwrnod Lliwgar**

Mae bellach yn draddodiad yn yr ysgol i gynnal diwrnod lliwgar – cyfle i wisgo yn lliwgar ac i helpu wneud yr ysgol yn le mwy lliwgar. Treuliodd dosbarth Ogwen y diwrnod cyfan yn chwynnu, clirio a paratoi y gardd lysiau, y potiau blodau a rhai o ardaloedd eraill tu allan i’r ysgol. Yn y pnawn daeth dosbarth Idwal i ymuno wrth helpu i blannu blodau. Mae’r ysgol bellach yn lliwgar dros ben ac yn codi gwen wrth i bobol fynd heibio!

**Wythnos Iechyd a Lles**

Mae’r Cyngor Iechyd a Lles wedi bod yn brysur iawn y mis yma yn trefnu wythnos o weithgareddau i hybu ffitrwydd a iechyd meddwl. Yn ystod yr wythnos cafwyd gyfle i ddysgu am fwy iach, gwneud yoga, dawnsio, mabolgampau, dod

## Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn

CANOLFAN CEFNFAES

**Bore Coffi**
Plaid Cymru
Dyffryn Ogwen
Sadwrn, 16 Medi 10.00 – 12.00
Mynediad: £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

**Gyrfa Chwist**
Gorffennaf 25
Medi 12 a 26
am 7 o’r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

**Bore Coffi**
Eglwys Crist
Glanogwen
Sadwrn, 30 Medi 10.00 – 12.00
Mynediad: £1.00

FESTRI JERUSALEM

**Bore Coffi**
Clwb Gorffwysfan
Sadwrn, 23 Medi
10.00 – 12.00
Mynediad: £1.00

CANOLFAN GLASINFRYN

**ARDDANGOSFA ARLUNIO**
gan
**Grwp Arlunio Glasinfryn**
17, 18, 19 Awst 2023
11.00 - 3.30
Mynediad am ddim

**CAFFI COLLED**
Grwp Cefnogi Rhai Mewn Profedigaeth

Dydd Llun, 7 Awst 2023
1 – 3yp

Canolfan Gorffwysfan, Bethesda
Cyswllt: Caplan Bro, Parchg. Sara Roberts
sararoberts@churchinwales.org.uk
07967652981 FB: Caffi Colled





a beics a scwters i'r ysgol ond uchafbwynt yr wythnos oedd ein taith gerdded o Dregarth i Clwb Rygbi Bethesda ac yn ol. Pob un o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 6 wedi gwneud yn wych yn cerdded yr holl ffordd ac yn ol. Cafwyd wythnos wych a diolch i Miss Ffion a'r Cyngor am eu holl waith trefnu.

**Celf a chrefft yr Urdd**

Llongyfarchiadau enfawr i nifer o ddisgyblion yr ysgol gystadlodd yng nghystadlaethau celf a chrefft Eisteddfod yr Urdd. Profodd nifer o blant lwyddiant trwy Eryri gyda gwobrau mewn ffotograffiaeth, gwaith creadigol, graffeg cyfrifiadurol a mwy. Llongyfarchiadau i Ffion a ddaeth yn gyntaf trwy Gymru gyda ffotograffiaeth du a gwyn. Cafodd y llun ei arddangos yn Llanymddyfri a cafodd fynd lawr i'r Eisteddfod i seremoni wobrwyo arbennig!



## DYDDIADUR BOREAU COFFI

**2023**

16 Medi – Cefnfaes – Plaid Cymru Dyffryn Ogwen
23 Medi – Festri Capel Jerusalem – Clwb Gorffwysfan
30 Medi – Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen
14 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

**Pwysig**

*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis.Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

Dilynwch Llais Ogwan ar Trydar
**@Llais_Ogwan**

Dilynwch Llais Ogwan ar
**www.llaisogwan.com**






# Nyth y Gân



blodau'r haul

## BLODAU'R HAUL

Yn yr ardd, mor hardd yw'r rhain, a'u tyfiant
 Hafaidd sydd yn hirfain;
Heddiw mae'r lliw dros y llain,
Y cewri mewn gwisg gywrain.

## YR AWEL YN Y DAIL

Mae'r dail sy'n tyfu ar y coed
Yn mynd a dod yn ôl eu hoed,
Amrywiol ydynt ar y brig
Â'u lliwiau'n harddu yr holl wig.

Mor braf oedd gweld clystyrau trwm
Yn chwifio'n ysgafn yn y cwm
Ar frigau'r coed yn siglo'n ffri
Fel tae nhw'n hwylio tonnau'r lli.

Yr awel greodd hyn am hir
Gan beri cryndod uwch y tir,
A'r symudiadau oedd mor llyfn
O'r llethrau serth i'r pantiau dyfn.

## GWENYN Y GRUG

Denir yr heidiau yno gan y grug
 Yn gryf pan flodeuo;
O bell y dônt i beillio
Eto i barhau tyfiant bro.

## DYFRHAU'R BLODAU

Dydd caled oedd i'w celu, â'r heulwen
 Mor hael yn tywynnu;
Galwad i'w diogelu
Yn daer rhag y gwywo du.

**Dafydd Morris**

# Gŵyl Gwenllian – Dathlu Merched y Carneddau

Cynhaliwyd Gŵyl Gwenllïan eleni ar y 10fed a'r 11eg o Fehefin fel dathliad o ferched y Carneddau. Cafwyd penwythnos yn llawn gweithgareddau, gyda rhywbeth at ddant pawb.

Roedd diwrnod llawn ar y dydd Sadwrn, gyda gweithgareddau wedi eu trefnu yng Nghanolfan Cefnfaes. Gan ddechrau yn y bore, bu nifer o deuluoedd yn mwynhau sesiwn celf, dan arweiniad Menna Thomas, gyda chinio blasus am ddim wedi'i ddarparu gan wirfoddolwyr Hwb Ogwen. Denodd ein rhaglen brynhawn Sadwrn dorf i fwynhau'r sgyrsiau a phaneli difyr. Fe gychwynnodd y prynhawn efo trafodaeth banel dan arweiniad Rebecca Hardy-Griffith gyda'r artistiaid lleol, Anna Pritchard, Rhiannon Gwyn ac Ann Catrin Evans, a fu'n trafod dylanwad cynefin ar eu gwaith. Difyr iawn oedd cael gweld enghreifftiau o gelf a tecstiliau'r amrywiol yr artistiaid.

I lansio prosiect newydd Partneriaeth Ogwen a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau – Lleisiau Lleol – fe gafodd fideo arbennig o sgwrs rhwng awdur enwog lleol Alys Conran a Meleri Davies ei ddangos i'r gynulleidfa lle bu Alys yn trafod ei dwy nofel a sut mae ei chynefin wedi dylanwadu ar ei gwaith. Mae'r fideo bellach ar gael i wylio ar YouTube Partneriaeth Ogwen.

Yn dilyn te prynhawn gyda chynnyrch lleol sydd ar gael trwy Cadwyn Ogwen, cafwyd cyflwyniad difyr gan Angharad Tomos, yn trafod ei nofelau diweddaraf, Castell Siwgr ac Arlwy'r Sêr. Ac i orffen y prynhawn, fe wnaeth bawb fwynhau sgwrs arbennig rhwng yr awdur nodedig lleol Manon Steffan Ros a'r llenor Annes Glyn i drafod gwaith Manon a sut mae ei magwraeth yn Nyffryn Ogwen wedi dylanwadu ar ei gyrfa a'i bywyd.

Yn ffodus roedd yr haul yn gwenu dydd Sul ar gyfer y gweithgareddau awyr agored, gan ddechrau gyda thaith feiciau dan arweiniad Elinor Elis-Williams. Cynhaliodd Gerddi Ffrancon sesiwn ioga teulu efo Leisa Mererid yn seiliedig ar ei llyfrau sy'n cyflwyno ioga i blant. Yn y p'nawn, bu Partneriaeth Tirwedd y Carneddau yn arwain criw ar daith gerdded Moel Faban, gan dynnu sylw at hanes a natur. Cafodd y grŵp amser i fyfyrio ar y golygfeydd anhygoel a defnyddio gwyddiau bach i ddal eu hargraffiadau.

I gloi dydd Sul, arweiniodd y Parch Sara Roberts bererindod fer o'r llyfrgell planhigion yn Gerlan i ffynnon Llechid, gan fyfyrio ar Santes Llechid a merched y Carneddau.

Hoffai Partneriaeth Ogwen ddiolch i'r holl sefydliadau, partneriaid a gwirfoddolwyr a wnaeth y penwythnos yn llwyddiant, yn enwedig Partneriaeth Tirwedd y Carneddau am noddi'r achlysur.

Yn gywir,
Robyn Meredydd



Manon Steffan Ros ac Annes Glyn




Angharad Tomos



Meleri ac Alys

# Iaith Pesda

gan Mary Jones

Mae dwyn i gof rhai geiriau ac ymadroddion yn codi hiraeth meddai rhai ohonoch, ond yn ffodus iawn maent hefyd yn codi gwên ac yn gallu achosi pyliau o chwerthin Ac fe arhoswn ni gyda'r chwerthin a digrifwch gan bod llond trol o ddywediadau yn ymwneud â'r pwnc ac ein hymateb i ddoniolwch. Pan fyddwn ni'n mwynhau a chael pleser mi ddwedwn ni ein bod ni'n 'cael hwyl' a 'chael sbort'. Mi soniwn ni am rai sy'n arbennig o dda am 'godi hwyl' mewn parti neu ddathliad. Yr ochr annymunol ydi 'gwwneud sbort' a ' chwerthin am ben' rhywun – 'chwerthin **am** ben' ac nid 'chwerthin **ar** ben'. Ymadroddion eraill am wneud hwyl am ben rhywun ydi ei wneud o eu hi yn 'destun sbort' neu yn 'gyff gwawd'. Pan fydd plentyn yn mynd dros ben llestri a bod 'na beryg i 'chwarae droi'n chwerw, yr hyn ddwedwn ni wrtho fo neu hi ydi " Mae 'na wahaniaeth rhwng cael hwyl a gwneud lol." Pan fyddwn ni'n chwerthin ar ôl stori ddigri neu jôc dda mae gynnon ni nifer o ymadroddion: 'yn glana chwerthin', 'rowlio chwerthin', 'chwerthin llond bol', 'chwerthin nes oedda ni'n wan' ac 'yn sal yn chwerthin' Wrth gwrs byddai jôc dda neu stori dda yn codi gwên a byddai honno o glust i glust o lydan neu 'fath a giât', hynny ydi fel giât agored. Mae 'tynnu coes' yn gallu bod yn ddigon diniwed a difalais ond gall 'herian' droi yn dipyn mwy difrifol. Dyma engraifft o dynnu coes diniwed: dau yn sgwrsio, ac un arall yn dwad heibio ac yn dweud wrth un ohonynt "Paid a coelio pob dim mae o'n ei ddeud wrtha ti!"

**Mynd i'r gwely a chysgu**

Mae gynnon ni nifer o ymadroddion am fynd i'r gwely: " Dwi am fynd am y ciando" ;" Mae'n bryd mynd am y cae sgwâr na."; "Mae'n amser mynd am y cae nos." Un arall ydi " Dwi am ei throi hi rwan.", (ond gallwn ddweud hyn hefyd pan fydd yn barod codi am adref o rywle). Byddai rhieni yn dweud "Dwi'n siwr nad ydy huwcyn cwsg ddim yn bell, am y lle sgwâr" Ar ôl cyrraedd y gwely weithiau byddwn yn syrthio i 'gysgu yn syth bin' ac yn 'cysgu fel twrch' (sef mochyn gwyllt); yn 'cysgu'n sownd'; 'yn mynd i drwmgwsg. Adeg arall yn 'cysgu'n ysgafn' neu fethu mynd i gysgu – 'anhunedd'. Rhyw hanner cysgu yn y gadair weithiau 'hepian' a 'lhendwmpian' a chael 'cyntun bach' (*snooze*). Mae'r dywediad 'cysgu llwynog' sy'n golygu 'cysgu slei bach' sef smalio cysgu rhag colli be sy'n digwydd, a hynny drwy gadw un llygad neu'r ddwy yn gil-agored.

**Ambell Air**

**Stwna** "Be 'ti'n neud yn stwna yn fan'a, tyd yn dy flaen." Mae'n siwr bod ambell un ohonom wedi clywed hyn a bellach wedi ei ail-ddweud wrth ein plant. Rhyw din-droi yn yr unfan yn gwneud dim o bwys ydi stwna. Gallwn stwna o gwmpas yr ardd neu'r ty, ond does gennym fawr i ddangos ar y diwedd.

**Coblyn** Gair Saesneg am gymeriad mewn staeon tylwyth teg ydy '*goblin*' i mi a does gen i ddim syniad os ydy o'n gysylltiedig efo'r 'coblyn' sydd gen i dan sylw ac nid wyf wedi cael cyfle i ymchwilio eto. Daeth cwsmer yn Y Siôr ataf a thrafod ychydig am y golofn ac wedyn gofyn " Pam yda ni'n defnyddio'r gair coblyn?" Adya'r enghreifftiau 'coblyn o hogyn drwg oedd o' 'coblyn o ddyn cryf' 'roedd hi'n goblyn o sydyn' Rydym yn ei ddefnyddio pan rydym yn pwysleisio'r disgrifiad a'i wneud yn fwy eithafol.

**Traed dan bwrdd**

Diolch i Gwen Davies, Tanysgrafell Isaf am yr alwad ffôn. Roedd yn sôn am eiriau fel 'cowt' y tu allan i'r ty a 'parad' sef waliau arbennig tu mewn i'r ty a hefyd yr ymadrodd 'cael dy draed dan bwrdd'. Roedd ambell i un ar ôl bod yn canlyn yn cael ymweld â chartref y cariad ar fwy nag un achlysur ac felly i'w weld yn cael ei dderbyn gan y teulu. Byddai'n siwr o glywed "Ti 'di cael dy draed dan bwrdd do!" yn hwyr neu'n hwyrach a byddai hen dynnu coes.

Diolch hefyd i Dilwyn Jones o Erw Las yn dweud mai cyffro, terfysg neu aflonyddwch ydyystyr 'chwêl' iddo fo.

Wel, mae mis o wyliau rwan, amser i ni nodi'r geiriau i lawr a chysylltu naill ai drwy ebost, ysgrifennu, codi ffôn neu roi bloedd os gwelwch chi fi. Mary Jones 42 Erw Las, Bethesda LL57 3NN maryeds@hotmail.co.uk 07443047642

EGLWYS CRIST GLANOGWEN CHURCH

**GWASANAETH COFFA**

**14/09/23**



**COFIO'R RHAI A GOLLWYD YN Y CYFNOD CLO**

**Gwasanaeth cydenwadol, agored i bawb**

**post@llaisogwan.com**

Partneriaeth Ogwen Cyf.
26 Stryd Fawr Bethesda Gwynedd LL57 3AE
23 Mehefin 2023

Annwyl gyfaill,

**Lleisiau Lleol – Prosiect Hanes Llafar**

Ysgrifennaf atoch i roi gwybod am brosiect newydd i Bartneriaeth Ogwen, gan weithio gyda Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau ar brosiect ymchwil a hanes llafar – Lleisiau Lleol. Gyda'r gwaith yma, byddwn yn casglu straeon, atgofion a gwybodaeth am gymunedau'r Carneddau a'u perthynas â'r dirwedd.

Mae cymaint wedi newid mewn cof byw am y ffordd yr ydym yn ffermio'r tir ac yn rhyngweithio â'r Carneddau; a nawr yw'r amser i gofnodi'r profiadau a'r atgofion hyn.

Bydd sawl elfen i'r prosiectau, megis mapio enwau lleoedd gan ddefnyddio hen fapiau, ffotograffau, dyddiaduron a llyfrau stoc. Byddwn hefyd yn ceisio dal a rhannu straeon trwy fideos a recordiadau sain. Gan ein bod yn gymuned greadigol yma yn Nyffryn Ogwen, rwy'n siŵr y gallwn ddod o hyd i ffordd o roi ein stamp unigryw ein hunain arni hefyd.

Mae prosiect Lleisiau Carneddau eisoes wedi creu rhai adnoddau, megis y fideos gwych hyn gan Ieuan Wyn a Myrddin ap Dafydd ar enwau llefydd lleol: https://www.youtube.com/playlist?list=PLkisli2Z1RX4C7dK22rcDllYqHXTAHeID

Fel rhan o Ŵyl Gwenllïan, bu Partneriaeth Ogwen hefyd yn creu ei chyfraniad cyntaf, sef sgwrs gyda'r awdur lleol Alys Conran am ei gwaith a'i pherthynas â'i chynefin. https://www.youtube.com/watch?v=F1eDzwvGYBI

Rydym yn chwilio am bobl a fyddai â diddordeb mewn cymryd rhan – naill ai i gael eu cyfweld, i helpu i adnabod enwau lleoedd, neu hyd yn oed i ddweud wrthym ba elfennau o hanes llafar lleol y maent yn poeni bydd yn cael eu colli.

Rydym yn edrych yn arbennig am wirfoddolwyr a hoffai ein helpu i gofnodi a chasglu hanesion Dyffryn Ogwen. Gallai gwirfoddoli fod ar sawl ffurf – helpu i gynnal cyfweliadau, neu gynorthwyo i gasglu enwau a data. Byddwn yno i'ch cefnogi bob cam o'r ffordd. Rydym yn y broses o drefnu diwrnod hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr, a fydd yn digwydd yng Nghanolfan Cefnfaes fis nesaf. Os oes gennych ddiddordeb, plîs cysylltwch â ni i drafod.

Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych.

Cofion gorau
Robyn
robyn@ogwen.org
07731 393944

# Chwaraeon

## Tîm Pel-Rwyd Merched Bethesda

Braint oedd i dîm Pel-rwyd Merched Bethesda cael derbyn eu tlws draw yn y noson gwobrwyo diwedd tymor yn ddiweddar yn dilyn eu llwyddiant yn ennill Cyngrair Pel-rwyd Môn a Gwynedd Tymor yr Haf 2022. Llongyfarchiadau mawr genod.
Hefyd cafwyd tymor llwyddiannus dros yr gaeaf drwy ddod yn drydydd drwy Môn a Gwynedd yn y Gyngrair Gaeaf 2022.
Mae'r merched wrth eu bodd yn cystadlu'n wythnosol draw ym Mhenygroes ac ar hyn o bryd maent ar frig Cyngrair yr Haf 2023 ond ar fin wynebu timau cryf iawn.
Unwaith eto hoffai'r genod ddiolch i Sion Roberts o gwmi Roberts Brothers Transport (RBT) ac i Carys Davies o So Chic am eu noddi.




---

Llongyfarchiadau mawr i Tomos Hughes, Braichmelyn am gael ei ddewis fel y maswr (Rhif 10) gorau yn holl dimau Adran 1 Gogledd yn nhymor 2022-23 gan y podlediad rygbi **GogPod**.

Hwn oedd tymor cyntaf Tomos yn Nhîm Cyntaf Bethesda – tymor hynod o anodd i'r tîm gan bod nifer o chwaraewyr profiadol wedi gorffen chwarae yn dilyn cyfnod Cofid a thymor byr 2021-22.

Cychwynodd Tomos chwarae rygbi pan oedd ond 5 oed ac mae wedi cynrychioli'r clwb mewn sawl tîm mini, iau a ieuenctid.

Mae cefnogwyr ffyddlon Clwb Rygbi Bethesda wedi bod yn dyst i ddatblygiad Tomos o'i gêm gyntaf yn Adran 1 Gogledd yn erbyn Rhuthun ar Dôl Ddafydd hyd at y gêm olaf i ffwrdd yn erbyn y pencampwyr Nant Conwy.

Edrychwn ymlaen i weld Tomos yn parhau i ddatblygu ac i fwynhau chwarae rygbi – pob hwyl iddo yn y dyfodol.




## Ar y Lawnt efo Bys a Bawd

**Baston yn baeddu bowliwr o Benllech**
Ar ddydd Mawrth yr 20fed o Fis Mehefin gwelwyd y Bonheddwr Baston, bowliwr go benderfynol o Dalybont yn rhoi crasfa i ymwelydd o Benllech, Môn. Synnwyd y gwylwyr niferus gan ddawn y Bonheddwr Baston i drafod lawnt anodd a chyfnewidiol Dyffryn Ogwen. Sgôr y bonheddwr boneddigaidd oedd 20 pwynt i 10.

Roedd hyn yn digwydd ar ddiwrnod pan gollodd rhai o fawrion y gêm leol ar eu tir eu hunain, ond diolch i'r gwroniaid buddugol fel Mr Baston, llwyddodd Bethesda i yrru'r ymwelwyr adre'n waglaw.



**Y gwylwyr yn gorfoleddu**
Clywyd amryw o sylwadau canmoliaethus gan y dyrfa ar ymyl y lawnt. Yn eu plith gwaeddodd un, "Bwystfil 'di Baston pan mae o ar ei orau."

Bloedd arall a glywyd oedd,

"Nid chwaraewr prennaidd ydy John ond un penderfynol."

Ie, un sy'n gallu ennill gydag urddas a cholli gyda gwên ydy'r gwron o Gae Gwigin.

Eraill a wnaeth gyfraniad nodedig i lwyddiant y tim hŷn ar y diwrnod oedd Maldwyn Pritchard (Capten), Heddwyn Morris, y cyn-gludydd parseli o Faes Bleddyn, Wendy Thomas o Lanfair PG a Gloria Williams o'r Gerlan. Dyna'r rhai sy'n profi fod dulliau hyfforddi a disgyblaeth y capten yn dwyn ffrwyth.

**Colli yn Llandudno**
Yn absenoldeb ein capten arferol, Mr Maldwyn Pritchard, cymerwyd



mantell y cyfrifoldeb gan Mr Heddwyn Morris. Mae Heddwyn wedi hen arfer bloeddio ar ei gyd-chwaraewyr am fwy o ymdrech ac i ddwrdio pan mae angen hynny.

Ar gae bowlio'r Oval yn Llandudno ar 27 Mehefin dim ond dau aelod o'r tîm llwyddodd i oresgyn y tîm cartref, sef Fred Buckley a Denzil Jones. Bydd Maldwyn yn gorfod galw'r tîm i'r naill ochr i gael gair go hallt â'r holl aelodau yn dilyn y golled hon.